# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>23 MEDI 2026 am 1.30 o'r gloch yp** | **WEDNESAY,<br>23 SEPTEMBER, 2026 am 1.30 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Ieuan Williams **(Cadeirydd/Chair)**

**Plaid Lafur / Wales Labour Party**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Ifan Jones, Jackie Lewis, Nicola Roberts **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**, Robin Williams
2 Sedd Wag/2 Vacant Seat

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones

**Aelod Unigol/Unaffiliated**

Celfyn Furlong

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2026.

**4** **ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2025-2026** (Tudalennau 5 - 134)

Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol 2025-2026.

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Celfyn Furlong, Kenneth Hughes, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill Nicola Roberts a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Swyddog Cynllunio (DFJ),<br>Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (LW),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Melissa Kurihara – Cyfarwyddwr LUC |

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd cydymdeimlodd yr Is-gadeirydd yn ddwys â theulu'r Cynghorydd Ken Taylor a fu farw'n sydyn yn ddiweddar. Dywedodd bod y Cynghorydd Ken Taylor yn aelod ymroddgar o'r Cyngor ac yn angerddol ynglŷn â'i rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei ail-ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Nicola Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**3 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, 2026 yn gywir.

**5 ADRODDIAD CRYNO AR YR YMGYNGHORIAD AR Y WELEDIGAETH, AMCANION AC OPSIYNAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr adroddiad yn amlygu canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Chwefror a 25 Mawrth 2026. Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn y cyhoedd ar y prif faterion cynllunio a'r heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn a'r Weledigaeth ac Amcanion Strategol drafft ynghyd â'r opsiynau ar gyfer twf (lefelau tai a chyflogaeth ac opsiynau ar gyfer y strategaeth ofodol ar gyfer lleoli datblygiadau). Y nod oedd gweld a yw cyfeiriad y cynigion yn addas neu a oes angen addasiadau pellach. Derbyniwyd 58 o ymatebion i'r

ymgynghoriad anstatudol gan randdeiliaid, sefydliadau a'r cyhoedd; mae'r Adroddiad yn amlinellu ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a dderbyniwyd. Roedd yr ymatebion yn amlygu nifer o bwyntiau pwysig i'w hystyried fel y nodir yn yr adroddiad.

Aeth y Prif Swyddog Cynllunio ymlaen i ddweud bod yr adborth yn cadarnhau bod yr ymatebwyr yn cefnogi cyfarwyddyd y Cynllun arfaethedig at ei gilydd ond bod angen mireinio ambell faes:-

- Cryfhau rôl y Gymraeg o fewn y strategaeth;
- Sicrhau bod y Cynllun yn darparu tai fforddiadwy yn unol ag anghenion lleol;
- Datblygu strategaeth ofodol gytbwys, a fydd, o bosib, yn cynnwys elfennau hybrid;
- Profi opsiynau twf drwy sylfaen dystiolaeth gadarn;
- Sicrhau bod y seilwaith yn ganolog i gynigion datblygu.

Dywedodd na fydd yr adborth yn newid polisïau ar hyn o bryd, ac y byddant yn esblygu wrth ddatblygu Strategaeth Ofodol.

Bydd y camau nesaf yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir a fydd yn:-

- Nodi'r lefel twf a dull gofodol y mae'r Cyngor yn ei ffafrio.
- Seiliedig ar sylfaen dystiolaeth ddiwygiedig;
- Testun ymgynghoriad cyhoeddus statudol.

Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac unrhyw asesiadau technegol a seiliedig ar dystiolaeth a Pholisïau Cynllunio Cenedlaethol.

Nododd yr aelodau bod yr atebion yn gadarnhaol ac o ansawdd dda, er mai dim ond 58 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad anstatudol. Nodwyd bod hwn yn gyfle i bobl roi eu barn ar yr hyn y maent yn dymuno'i weld yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Jackie Lewis bod yr ymatebion o ansawdd dda, ond roedd yn dymuno cael gwybod p'un a yw'r cyhoedd yn ymwybodol bod eu barn nhw'n bwysig wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Roedd yn dymuno cael gwybod pe byddai modd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac awgrymodd y dylid creu fideo byr i egluro pwysigrwydd cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a pe byddai modd creu fersiwn 'hawdd ei ddeall' o'r ddogfen. Roedd hefyd yn dymuno cael gwybod beth yw'r cam nesaf y broses ymgynghori. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod y broses ymgynghori wedi cwrdd â gofynion y broses ymgynghori a'i fod mor eang â phosib, fodd bynnag, mae lle i wella, ac roedd yn barod ystyried dulliau ymgynghori eraill yn ystod y camau nesaf. Aeth ymlaen i ddweud y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod hwn ym mis Rhagfyr ac wedi hynny bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2027. Dywedodd Cyfarwyddwr LUC bod y dulliau ymgynghori wedi cael eu nodi yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd ynghlwm â'r Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn. Mae'n nodi'r camau cyfathrebu a dulliau fydd yn cael eu defnyddio. Aeth ymlaen i ddweud y bydd sesiynau galw heibio ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod camau nesaf y Cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Jackie Lewis bod yr Asesiad Anghenion Tai yn dangos bod galw am lety un ystafell wely. Cyfeiriodd hefyd at y twf cyflogaeth posib ar yr Ynys yn sgil y Porthladd Rhydd, Wylfa, y Ganolfan Ddata a phrosiectau ynni eraill ac roedd yn dymuno cael gwybod a fydd asesiad pellach yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod gwaith wedi cael ei gomisiynu i ddelio â'r mater a godwyd. Aeth y Cynghorydd Lewis ymlaen i holi ynglyn â'r amserlen ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd Cyfarwyddwr LUC bod y gwaith ar y Cynllun 11 mis ar ei hôl hi, a rhagwelir y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu ganol 2028.

Roedd y Cynghorydd Celfyn Furlong yn dymuno cael gwybod pam bod y gwaith yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol 11 mis ar ei hôl hi a p'un a oedd risg o oedi pellach wrth gwblhau'r Cynllun. Dywedodd yr Is-gadeirydd a oedd yn y Gadair bod yr oedi o ganlyniad i broblemau recriwtio yn y Tîm Polisi Cynllunio. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod y trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn gymhleth ac nad oedd yn anarferol gweld oedi wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dywedodd bod y gwaith blaenorol yn drefniant ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ond ers penderfynu dod â'r cytundeb cydweithio i ben mae'r naill Gyngor wedi gorfod recriwtio Timau Polisi Cynllunio ar wahân.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth Hughes ei fod yn dymuno gweld Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn cwrdd ag anghenion pobl Ynys Môn. Roedd o'r farn nad yw Polisïau Cenedlaethol o blaid pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac nad ydynt yn helpu pobl i fyw yn eu cymunedau lleol a diogelu'r Gymraeg. Roedd y Cynghorydd Hughes yn dymuno cael gwybod a yw'n bosibl herio Polisïau Cenedlaethol os nad ydynt yn berthnasol i Ynys Môn gan fod rhaid i'r Cynllun fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio mai'r nod yw cael Cynllun Datblygu Lleol sydd mor rymus â phosibl a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion yr Ynys ac yn gwella gwydnwch a chydlyniant cymunedol. Dywedodd y bydd yn rhaid i'r Cynllun gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o fewn y Polisïau Cenedlaethol. Roedd y Cynghorydd Kenneth Hughes hefyd yn dymuno cael gwybod a fydd Llywodraeth newydd Cymru'n newid y ddeddfwriaeth a pharhau i ddilyn polisïau cenedlaethol. Dywedodd yr Is-gadeirydd a oedd yn y Gadair bod modd tafod â Llywodraeth Cymru os oes tystiolaeth bod polisïau cenedlaethol yn amharu ar y Cynllun ar Ynys Môn.

Nid oedd y Cynghorydd Robert Ll Jones yn credu bod digon o ymgysylltiad cyhoeddus yn gysylltiedig âr Cynllun Datblygu Lleol. Nododd ddau enghraifft o benderfyniadau hanesyddol lle nad oedd gwrthwynebiad y cyhoedd wedi cael ei ystyried, sef Gwarchodfa Natur Penrhos a Thraeth Newry yng Nghaergybi. Dywedodd yr Is-gadeirydd a oedd yn y Gadair nad oedd y mater hwn ar yr agenda, a bod y ddau enghraifft dan sylw yn benderfyniadau cynllunio hanesyddol a oedd wedi cael eu gwneud cyn y Cynllun Datblygu Leol ar y Cyd presennol hyd yn oed. Pwysleisiodd bod y cyfarfodydd hyn yn gyhoeddus a bod modd i'r cyhoedd fynychu neu eu gwylio'n fyw ar wefan y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd Pip O'Neill yn dymuno cael gwybod a fydd polisïau gorfodi yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod gorfodaeth yn broses statudol ac os ceir tor amod rhaid i'r Awdurdod Cynllunio ystyried pa gamau priodol fydd yn cael eu cymryd.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r canfyddiadau'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau**
- **Cefnogi'r prif negeseuon a nodwyd fel sail i'r Strategaeth a Ffefrir.**

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 23 Medi 2026 |
| Testun: | Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2025-26 |
| Deiliad/Deiliaid Portffolio: | Y Cyngh. Nicola Roberts (Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Lowri F. Williams (Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio)<br><br>lowriwilliams3@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i bob Aelod Etholedig |

DRAFFT

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol er mwyn cytuno arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**2.0 Y Penderfyniad Gofynnol**

2.1 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2025-26 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**3.0 Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)**

3.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol ei bod yn ofynnol monitro Cynlluniau Datblygu Lleol yn flynyddol a bod yn rhaid cyflwyno adroddiad yn crynhoi monitro o'r fath i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno drafft o'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol, sy'n adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Lluniwyd yr AMB gan swyddogion y Tîm Polisi Cynllunio.

3.2 Mae'r AMB yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) a thros amser gall AMB ddangos tueddiadau, egluro pa bolisïau sy'n cyflawni neu fel arall, a thynnu sylw at p'un a oes unrhyw fylchau neu hepgoriadau yn y ddarpariaeth polisi. Mae'r canfyddiadau hefyd yn

arbennig o bwysig wrth lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Ynys Môn.

3.3 Mae'r AMB yn rhestru'r prif ganfyddiadau ac mae'r rhain wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Yn gyffredinol, mae'r gwaith monitro yn dangos bod y rhan fwyaf o bolisïau'r CDLl ar y Cyd yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol ac yn parhau i gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun.
- Nid yw'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn gofyn am weithredu pellach y tu hwnt i fonitro parhaus. Mae nifer o ddangosyddion eisoes wedi'u cyflawni neu nid ydynt yn berthnasol i Ynys Môn mwyach ac felly nid oes angen eu monitro'n barhaus.
- Lle nad yw rhai dangosyddion wedi cyrraedd eu targedau, yn gyffredinol nid yw hyn wedi codi pryderon sylweddol ynghylch gweithredu polisi. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr ymateb priodol yw parhau i fonitro ac ystyried y canfyddiadau drwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.
- Mae polisïau iaith Gymraeg y Cynllun yn parhau i gael eu cymhwyso drwy'r broses rheoli datblygu. Yn ystod y flwyddyn fonitro, cyflwynwyd 4 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a 7 Datganiad Iaith Gymraeg lle bo angen.
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn groes i Bolisi PS1 yn ystod y cyfnod monitro, sy'n dangos bod gofynion y polisi iaith Gymraeg yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.
- Yn 2025/26, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 154 o unedau tai newydd ar safleoedd nad oedd ganddynt ganiatâd ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun, ac mae 114 ohonynt yn unedau fforddiadwy, sef 74% o'r holl ganiatadau tai.
- Cofnodwyd 134 o unedau preswyl wedi'u cwblhau ar gyfer Ynys Môn, ac roedd 68 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy, sef 51% o'r unedau a gwblhawyd.[1]
- Mae'r gyfran uchel o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn 2025-26 yn dangos rôl barhaus polisïau tai'r Cynllun o ran cefnogi anghenion tai lleol a chymunedau lleol. Gall hefyd awgrymu y gallai fod diffyg cyflenwi tai ar y farchnad agored yn y diwydiant adeiladu yn yr ardal.
- Mae polisïau seilwaith yn parhau i weithredu'n effeithiol. Llwyddodd un cais cynllunio i sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr yn ystod y cyfnod monitro, a oedd yn ymwneud â gwelliannau i briffyrdd lleol drwy gytundeb Adran 106.
- Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1, sy'n golygu bod y targed i atal datblygu lle nad oes digon o seilwaith yn dal i gael ei fodloni.
- Polisi ISA 2: Mae Cyfleuster Cymunedol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dal i gael ei roi ar waith yn effeithiol. Roedd chwe chais cynllunio yn ymwneud â cholli cyfleusterau cymunedol blaenorol, ond nid oedd yr un ohonynt yn mynd yn groes i gynnal neu wella gofynion cyfleusterau presennol y polisi oherwydd nad oedd y cyfleusterau'n hyfyw, oherwydd nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach, neu oherwydd eu bod wedi'u hadleoli.

[1] Gofyniad Blynyddol Cyfartalog y Cyd-gynllun yw 479. Mae gofyniad blynyddol cyfartalog dangosol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio i helpu i fonitro'r gyfradd gwblhau ar ôl 2023.

- Mae polisïau mannau agored yn parhau i ddiogelu mannau agored presennol a sicrhau darpariaeth neu gyfraniadau lle bo angen.
- Cymeradwywyd chwe chais am 10 neu fwy o anheddau yn ystod y flwyddyn fonitro, gyda darpariaeth mannau agored neu gyfraniadau ariannol yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi ISA 5.
- Cyfanswm y cyfraniad ariannol o geisiadau cynllunio perthnasol oedd £25,546.21 a sicrhawyd tuag at ddarpariaeth mannau agored yn ystod y cyfnod monitro.
- Mae polisïau trafnidiaeth yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. Cefnogwyd un cais mawr gan Asesiad Trafnidiaeth, ac ni chafwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Trafnidiaeth gofynnol.
- Yn ystod y cyfnod monitro, cafodd 391 o geisiadau eu cefnogi gan Ddatganiadau Trafnidiaeth a chyflwynwyd 31 o Gynlluniau Rheoli Traffig Adeiladu.
- Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio a fyddai'n niweidiol neu'n effeithio'n andwyol ar dir a ddiogelir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth.
- Mae monitro perygl llifogydd yn dangos bod polisïau perthnasol yn dal i gael eu defnyddio'n effeithiol.

3.4 Mae'r canlyniadau monitro'n dangos, er bod darpariaeth tai yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau o ran taflwybr a bod safleoedd tai a ddyrannwyd yn parhau i danberfformio, mae'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn gweithredu'n effeithiol.

3.5 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn adrodd ar ddata o Ynys Môn yn unig oherwydd bod trefniadau cydweithio â Chyngor Gwynedd ar faterion Polisi Cynllunio wedi dod i ben ym mis Ebrill 2023. Mae'n dilyn yr un fformat ag adroddiadau a dogfennau blaenorol ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig.

3.6 Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i hysbysu datblygiad polisi yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Ynys Môn a fydd yn adlewyrchu anghenion yr Ynys o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Argymhellir bod Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol drafft (**Atodiad 1**) a'i gasgliadau (fel y nodir uchod yn y prif ganfyddiadau) er mwyn gallu ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad gofynnol, sef 31 Hydref 2026.

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru

anglesey.gov.wales

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

# 8fed Adroddiad Monitro Blynyddol (Adroddiad Ynys Môn)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd
This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn cyngorynysmôn cyngorynysmôn cyngorynysmôn

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ..... 4
Casgliadau Allweddol yr AMB ..... 6
Adolygu'r Cynllun ..... 7
Monitro'r Asesiad Cyneliadwyedd (AC) ..... 7
Cyflwyniad ..... 8
Dangosyddion ..... 8
Camau gweithredu ..... 9
Dadansoddi Newidiadau Cyd-Destunol ..... 11
Y Cyd-destun Cenedlaethol ..... 11
Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol) ..... 11
Polisi Cynllunio Cymru ..... 12
Y Cyd-destun Rhanbarthol ..... 13
Cynlluniau Datblygu Strategol ..... 13
Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ..... 13
Y Cyd-destun Lleol ..... 14
Porthladd Rhydd Ynys Môn ..... 14
Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial ..... 15
Safle Wylfa ..... 16
Dadansoddiad o Ddangosyddion ..... 17
Cymunedau Diogel, Iach, Unigryw a Bywiog ..... 17
Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant ..... 17
Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr ..... 27
Mannau Agored ..... 27
Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd ..... 29
Byw'n Gynaliadwy ..... 33
Datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd ..... 33
Technoleg Ynni Adnewyddadwy ..... 38
Economi ac Adfywio. ..... 48
Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau Cysylltiedig ..... 48
Wylfa Newydd ..... 48
Darparu Cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus ..... 54
Gweledigaeth economaidd ..... 54
Datblygiadau Canol Tref ac Adwerthu ..... 61
Yr Economi Ymwelwyr ..... 64
Cynlluniau Rheoli Cyrchfan ..... 65


DRAFT

Cyflenwad ac Ansawdd Tai ..... 68

Lleoliad Tai ..... 68

Llety i Sipsiwn a Theithwyr ..... 91

Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig ..... 98

Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ..... 98

Gwarchod a gwella asedau treftadaeth ..... 101

Rheoli Gwastraff ..... 103

Casgliadau ac Argymhellion ..... 109

Atodiad 1 - Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ..... 111


Crynodeb o Fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ..... 112

Crynodeb o'r Canlyniadau ..... 112


DRAFFT

# Crynodeb Gweithredol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 70 o ddangosyddion a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbarduno gweithredu pellach, pan fo angen. Datblygwyd y Fframwaith Monitro yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru, ac fe'i hystyriwyd yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar gyfer y CDLl ar y Cyd.

Fel rhan o broses statudol y Cynllun Datblygu, rhaid i Gynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Yn 2023, daeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd â'u cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben. O ganlyniad, bydd yr AMB hwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig. Dyma'r wythfed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31

Mawrth 2026. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2026.

Paratoir yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ystod blwyddyn olaf y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011-2026). Bydd y Cynllun yn peidio â bod yn rhan o'r cynllun datblygu statudol ar 31 Rhagfyr 2026, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, dangosir dangosyddion allweddol a chanlyniadau yn y tabl isod.

| Disgrifiad | Nifer y Dangosyddion |
|---|---|
| Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 34 |
| Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 19 |
| Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 5 |
| Cyflawnwyd y targed / neu'r data ddim yn berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn | 11 |

Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

| Asesiad | Cam gweithredu | Nifer y dangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim angen cymryd camau pellach heblaw am barhau i fonitro | 34 |
| Asesiad o'r penderfyniad ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad | Efallai bod angen hyfforddiant ychwanegol ar swyddog a / neu Aelod. | 0 |
| Mae'r asesiad yn awgrymu bod angen rhagor o arweiniad ar gyfer y rheini a nodir yn y Cynllun i egluro sut dylid gweithredu polisi'n gywir, neu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Mae angen ymchwil ac ymchwiliad pellach, sy'n cynnwys archwilio gwybodaeth gyd-destunol am ardal y Cynllun neu'r maes pwnc. | 24 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei gweithredu | Arolygu'r Cynllun | 0 |
| Cyflawnwyd y targed / neu'r data ddim yn berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn | Dim angen gweithredu pellach | 11 |

Fel y gwelir uchod, nid oes angen gweithredu ymhellach ar y rhan fwyaf o ddangosyddion, gyda disgwyliad i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi'u lliwio'n llwyd gan eu bod wedi'u cyflawni ac felly nid oes angen cymryd camau pellach ac felly nid ydynt wedi'u nodi uchod.

Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal â ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

## Casgliadau Allweddol yr AMB

- Yn gyffredinol, mae'r gwaith monitro yn dangos bod y rhan fwyaf o bolisïau'r CDLl ar y Cyd yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol ac yn parhau i gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun.
- Nid yw'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn gofyn am weithredu pellach y tu hwnt i fonitro parhaus. Mae nifer o ddangosyddion eisoes wedi'u cyflawni neu nid ydynt yn berthnasol i Ynys Môn mwyach ac felly nid oes angen eu monitro'n barhaus.
- Lle nad yw rhai dangosyddion wedi cyrraedd eu targedau, yn gyffredinol nid yw hyn wedi codi pryderon sylweddol ynghylch gweithredu polisi. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr ymateb priodol yw parhau i fonitro ac ystyried y canfyddiadau drwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.
- Mae polisïau iaith Gymraeg y Cynllun yn parhau i gael eu cymhwyso drwy'r broses rheoli datblygu. Yn ystod y flwyddyn fonitro, cyflwynwyd 4 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a 7 Datganiad Iaith Gymraeg lle bo angen.
- Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn groes i Bolisi PS1 yn ystod y cyfnod monitro, sy'n dangos bod gofynion y polisi iaith Gymraeg yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.
- Yn 2025/26, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 154 o unedau tai newydd ar safleoedd nad oedd ganddynt ganiatâd ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun, ac mae 114 ohonynt yn unedau fforddiadwy, sef 74% o'r holl ganiatadau tai.
- Cofnodwyd 134 o unedau preswyl wedi'u cwblhau ar gyfer Ynys Môn, ac roedd 68 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy, sef 51% o'r unedau a gwblhawyd.
- Mae'r gyfran uchel o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn 2025-26 yn dangos rôl barhaus polisïau tai'r Cynllun o ran cefnogi anghenion tai lleol a chymunedau lleol. Gall hefyd awgrymu y gallai fod diffyg cyflenwi tai ar y farchnad agored yn y diwydiant adeiladu yn yr ardal.
- Mae polisïau seilwaith yn parhau i weithredu'n effeithiol. Llwyddodd un cais cynllunio i sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr yn ystod y cyfnod monitro, a oedd yn ymwneud â gwelliannau i briffyrdd lleol drwy gytundeb Adran 106.
- Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1, sy'n golygu bod y targed i atal datblygu lle nad oes digon o seilwaith yn dal i gael ei fodloni.
- Polisi ISA 2: Mae Cyfleuster Cymunedol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dal i gael ei roi ar waith yn effeithiol. Roedd chwe chais cynllunio yn ymwneud â cholli cyfleusterau cymunedol blaenorol, ond nid oedd yr un ohonynt yn mynd yn groes i gynnal neu wella gofynion cyfleusterau presennol y polisi oherwydd nad oedd y cyfleusterau'n hyfyw,

DRAFT

oherwydd nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach, neu oherwydd eu bod wedi'u hadleoli.

- Mae polisïau mannau agored yn parhau i ddiogelu mannau agored presennol a sicrhau darpariaeth neu gyfraniadau lle bo angen.
- Cymeradwywyd chwe chais am 10 neu fwy o anheddau yn ystod y flwyddyn fonitro, gyda darpariaeth mannau agored neu gyfraniadau ariannol yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi ISA 5.
- Cyfanswm y cyfraniad ariannol o geisiadau cynllunio perthnasol oedd £25,546.21 a sicrhawyd tuag at ddarpariaeth mannau agored yn ystod y cyfnod monitro.
- Mae polisïau trafnidiaeth yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. Cefnogwyd un cais mawr gan Asesiad Trafnidiaeth, ac ni chafwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Trafnidiaeth gofynnol.
- Yn ystod y cyfnod monitro, cafodd 391 o geisiadau eu cefnogi gan Ddatganiadau Trafnidiaeth a chyflwynwyd 31 o Gynlluniau Rheoli Traffig Adeiladu.
- Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio a fyddai'n niweidiol neu'n effeithio'n andwyol ar dir a ddiogelir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth.
- Mae monitro perygl llifogydd yn dangos bod polisïau perthnasol yn dal i gael eu defnyddio'n effeithiol.

Daw'r Adroddiad Monitro Blynyddol i'r casgliad nad oes angen adolygiad polisi ar unwaith ar wahân i baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn, ond dylai canfyddiadau'r gwaith monitro fod yn sail i sylfaen dystiolaeth a datblygiad polisi'r Cynllun newydd.

## Adolygu'r Cynllun

Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid adolygu CDLlau bob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad Adroddiad yr Adolygiad oedd cynnal Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n gyfystyr â pharatoi Cynllun newydd. Dilynwyd hyn gan benderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i ddod â'r trefniant cydweithio rhwng y ddau Gyngor i ben a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Bydd casgliadau pob AMB yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn cyfrannu at baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.

## Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)

Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl.

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLlC) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun yn ystod oes y CDLlC (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.

Mae is-adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau lunio Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar ôl eu mabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB.

## Dangosyddion

Disgwylir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) bod pob fframwaith monitro yn cynnwys dangosyddion allweddol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:-

| Dangosydd craidd | Cyfeiriad yn y fframwaith monitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd yn cael ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR). | D47 |
| Cyfanswm cwblhau cronnus wedi eu monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnus a ragwelir. | D44 |
| Nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd o'i gymharu â'r targed yn y Cynllun. | D47 |
| Y math o dai fforddiadwy a adeiladwyd (deiliadaeth) | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywedd y farchnad ar gyfer datblygiadau tai | D50 |
| Cyfradd datblygu tai ar ddyraniadau. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau seilwaith allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa / math o ddatblygiad agored iawn i niwed a ganiatawyd mewn ardaloedd C2 sydd mewn perygl o lifogydd. | D18 |

Mae'r Fframwaith Monitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn pan fo'n bosibl, a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bo eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

DRAFT

## Camau gweithredu

Mae'r Fframwaith Monitro yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu cyraeddadwy a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu ganlyniadau annisgwyl. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn dilyn y bydd methiant i gyflawni targed penodol yn cael ei ddehongli fel methiant polisi a fyddai'n golygu'n awtomatig bod y polisi hwn (neu'r Cynllun cyfan) yn dod yn destun adolygiad.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r gwaith monitro, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Fframwaith Monitro ym Mhennod 7 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae nifer o opsiynau posibl i helpu i ddelio â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o fethiant i gyflawni yn unol â'r disgwyliad.

| Asesiad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim angen cymryd camau pellach heblaw am barhau i fonitro |
| Asesiad o'r penderfyniad ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad | Efallai y bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar Swyddog a/neu Aelod |
| Mae'r asesiad yn awgrymu bod angen rhagor o arweiniad ar gyfer y rheini a nodir yn y Cynllun i egluro sut dylid gweithredu polisi'n gywir, neu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Mae angen ymchwil ac ymchwiliad pellach, sy'n cynnwys archwilio gwybodaeth gyd-destunol am ardal y Cynllun neu'r maes pwnc. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei gweithredu | Arolygu'r Cynllun |
| Mae'r targed wedi'i gyrraedd neu nid yw'r data'n berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn | Dim angen gweithredu pellach |

Er mwyn helpu i ddehongli'r monitro, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio:

| Disgrifiad |
|---|
| Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

Mae'r AMB hwn yn dilyn fformat tebyg i fersiynau blaenorol, fodd bynnag, mae'r ffocws ar gyfer AMB 8 ar ddata sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn ddefnyddiol fel tystiolaeth o baratoi'r CDLl newydd.

DRAFFT

# Dadansoddi Newidiadau Cyd-Destunol

Yn ystod y cyfnod monitro, cyhoeddwyd nifer o ddogfennau polisi, strategaethau, canllawiau a newidiadau deddfwriaethol newydd ac wedi'u diweddaru a allai ddylanwadu ar weithrediad a pherfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'n bwysig cydnabod yr ystod eang o ffactorau a all effeithio ar y Cynllun, o sbardunau polisi rhyngwladol a chenedlaethol i fentrau rhanbarthol, strategaethau lleol a chanllawiau'r Cyngor. Er bod llawer o'r newidiadau hyn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr awdurdodau cynllunio lleol, gallant arwain at oblygiadau sylweddol i batrymau datblygu, darpariaeth seilwaith a chyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r newidiadau cyd-destunol allweddol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod monitro, gan gynnwys deddfwriaeth, polisïau a strategaethau cenedlaethol perthnasol, ynghyd â datblygiadau rhanbarthol a lleol pwysig. Rhoddir sylw penodol i ddatblygiadau arwyddocaol fel cynnydd sy'n ymwneud â phrosiect Wylfa, dynodi a gweithredu Porthladd Rhydd Ynys Môn, a chyhoeddi a hyrwyddo Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, sydd i gyd â'r potensial i ddylanwadu ar gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn y dyfodol. Ystyrir tueddiadau economaidd cyffredinol a welwyd yn ystod y cyfnod monitro hefyd lle bo hynny'n berthnasol. Darperir gwybodaeth gyd-destunol fanylach sy'n ymwneud â meysydd polisi penodol yn yr adrannau dadansoddi polisi perthnasol ac felly nid yw'n cael ei hailadrodd yn y bennod hon.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol)

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddwyd cyngor cynllunio wedi'i ddiweddaru ar lifogydd drwy Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN) newydd. Mae'r TAN yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, wrth baratoi eu Cynllun Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) llawn a defnyddio allbynnau'r astudiaethau hyn i lywio dyraniadau tir yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Rôl yr SFCA yw nodi'r perygl o lifogydd o amrywiaeth o ffynonellau a darparu gwybodaeth hanfodol i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygiadau defnydd tir. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y Cynllun Datblygu Lleol fel y mecanwaith ar gyfer dyrannu safleoedd ond hefyd ar gyfer nodi mesurau lliniaru llifogydd ac asesu risg.
Cefnogir y canllawiau gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a chanllawiau gweithredu wedi'u diweddaru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2026.

**Deddf Seilwaith (Cymru) 2024**
Ers cyhoeddi TAN 15, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, sy'n sefydlu trefn gydsynio newydd ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIP) yng Nghymru. Yn ystod 2025, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd eu hangen i weithredu'r Ddeddf, gan gynnwys rheoliadau drafft sy'n llywodraethu ceisiadau, gweithdrefnau, archwiliadau a phenderfyniadau. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar weithrediad ymarferol y drefn newydd, gyda'r nod o greu proses gydsynio fwy syml, tryloyw ac effeithlon ar yr un pryd â sicrhau asesiad amgylcheddol priodol a chyfranogiad y cyhoedd.
Mae'r drefn newydd yn disodli'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) flaenorol ar gyfer prosiectau seilwaith cymwys a'i bwriad yw rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr, y rheini sy'n gwneud penderfyniadau a chymunedau. Ochr yn ochr â rhoi'r Ddeddf ar waith, mae

Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 wedi cael ei ddynodi fel y Datganiad Polisi Seilwaith cyntaf, sy'n darparu'r fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer asesu ceisiadau am brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.
Er bod Deddf Seilwaith (Cymru) yn ymwneud yn bennaf â chaniatáu prosiectau seilwaith mawr yn hytrach na pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol, mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd cynllunio strategol, darparu seilwaith cydlynol ac alinio rhwng blaenoriaethau seilwaith cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol. O ganlyniad, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith cynaliadwy, gwrthsefyll yr hinsawdd a thwf economaidd, gan ystyried gofynion seilwaith a pholisi cenedlaethol ar yr un pryd.

**Datganiad Polisi Afonydd ACA**
Mewn ymateb i'r heriau amgylcheddol parhaus sy'n effeithio ar ddalgylchoedd afonydd gwarchodedig Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y Datganiad Polisi Cynllunio Dros Dro ar Ddatblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd ym mis Awst 2025. Mae'r datganiad yn cryfhau'r defnydd o'r egwyddor ragofalus wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys sicrhau na fydd datblygiadau newydd yn cael effaith niweidiol ar uniondeb safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig. Mae gan y polisi hwn oblygiadau sylweddol o ran gwneud cynlluniau a rheoli datblygiadau, yn enwedig mewn perthynas â seilwaith dŵr gwastraff, niwtraliaeth maethynnau a darparu dyraniadau tai a chyflogaeth mewn dalgylchoedd afonydd yr effeithir arnynt.

# Polisi Cynllunio Cymru

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), Rhifyn 12, ym mis Chwefror 2024. Mae wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema allweddol: Dewisiadau Strategol a Gofodol; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; a Lleoedd Naturiol Unigryw. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r prif amcanion ac egwyddorion polisi, gan gynnwys polisïau ar bynciau defnydd tir allweddol.

Mewn perthynas â'r diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mae newidiadau ategol hefyd yn cael eu gwneud i adran 4.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'r newidiadau polisi hyn yn ei gwneud yn glir, lle bo hynny'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried pa mor gyffredin yw ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried gofynion tai a dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir, pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, y dylai atgyfnerthu ei gamau gweithredu drwy fynnu bod amodau'n cael eu gosod ar bob annedd newydd gan gyfyngu eu defnydd i Ddosbarth C3 lle byddai amod o'r fath yn bodloni'r profion perthnasol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ddyrannu safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad lleol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a llety gosod tymor byr.

Er bod y darpariaethau polisi cenedlaethol hyn yn dal mewn grym, nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 drafft yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.

.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur, ceir Pennod 6 ddiwygiedig - 'Lleoedd Unigryw a Naturiol' - lle ceir newidiadau polisi i seilwaith gwyrdd, budd net i fioamrywiaeth a'r dull gweithredu fesul cam, diogelwch ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd.
Un newid allweddol yw'r gofyniad y dylai pob cais cynllunio a gyflwynir gynnwys 'Datganiad Seilwaith Gwyrdd'. Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 12 yn nodi y dylai 'Datganiad Seilwaith Gwyrdd' ddisgrifio sut mae seilwaith gwyrdd wedi cael ei ymgorffori yn y cynnig.

# Y Cyd-destun Rhanbarthol

## Cynlluniau Datblygu Strategol

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol (SDP) yn cael eu paratoi ledled Cymru gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC) i fynd i'r afael â materion trawsffiniol strategol, gan gynnwys tai, trafnidiaeth, seilwaith, datblygu economaidd, ynni adnewyddadwy a materion amgylcheddol. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer twf a datblygiad yn y dyfodol, gyda Chynlluniau Datblygu Lleol yn canolbwyntio wedyn ar bolisïau lleol a dyraniadau safleoedd.

Mae Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru yn cael ei baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn sefydlu strategaeth ranbarthol ar y cyd i sicrhau bod twf yn y dyfodol yn cael ei gydlynu, yn gynaliadwy ac yn cael ei gefnogi gan seilwaith priodol.

Mae Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cytundeb Cyflawni ar 24 Chwefror 2026, sy'n nodi sut bydd y Cynllun yn cael ei gynhyrchu, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer paratoi a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.

Mae Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru bellach wedi symud ymlaen i gam sylfaen dystiolaeth y broses o lunio'r cynllun, lle mae cymorth ar gyfer ei ddatblygu wedi'i gaffael gan yr ymgynghorwyr Arup. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn dechrau helpu i siapio'r sylfaen dystiolaeth a nodi sut gall y Cynllun Datblygu Strategol gefnogi twf, datblygiad a llesiant cynaliadwy ledled Gogledd Cymru yn ystod y 25 mlynedd nesaf.

Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd y dystiolaeth a gesglir yn cyfrannu at ddatblygu gweledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun, paratoi Adroddiad Prif Faterion ac Opsiynau, y broses Safleoedd Ymgeisiol, a nodi opsiynau twf a gofodol posibl. Bydd y gwaith hwn yn sail i'r Strategaeth a Ffefrir, a fydd yn nodi cyfeiriad arfaethedig y Cynllun Datblygu Strategol.

## Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yn ystod y cyfnod monitro, cafodd *Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (CTRh) 2025-2030* ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Paratowyd y CTRh gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, ac mae'n disodli'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol blaenorol ac yn darparu'r

fframwaith strategol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth ledled Gogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn ceisio darparu rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig, cynaliadwy a hygyrch, gan gefnogi amcanion *Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*. Mae ei flaenoriaethau'n cynnwys gwella trafnidiaeth gyhoeddus, cynyddu cyfleoedd ar gyfer cerdded, olwyno a beicio, lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gwella cysylltedd rhwng cymunedau a chanolfannau cyflogaeth, a chefnogi twf economaidd cynaliadwy. Mae'r CTRh yn darparu cyd-destun strategol pwysig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn enwedig mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, hygyrchedd a darparu seilwaith ategol.

Yn ystod y cyfnod monitro, lansiodd Llywodraeth Cymru *Rwydwaith Gogledd Cymru* hefyd, rhaglen hirdymor i wella cysylltedd rheilffyrdd a bysiau ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen yn ategu amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy hyrwyddo gwell integreiddio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi twf economaidd ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys Ynys Môn.

## Y Cyd-destun Lleol

### Porthladd Rhydd Ynys Môn

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi cael ei ddewis fel un o ddau borthladd rhydd yng Nghymru, yn dilyn proses ymgeisio gystadleuol. Datblygwyd y cais ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Stena Line, gweithredwr Porthladd Caergybi. Mae sicrhau statws porthladd rhydd yn darparu amrywiaeth o gymhellion tollau, treth a buddsoddi sydd wedi'u cynllunio i ddenu busnesau newydd, ysgogi twf economaidd ac annog mewnfuddsoddiad.

Mae Porthladdoedd Rhydd yn cael gwared ar rwystrau masnach ac yn darparu hawddfreintiau sy'n symleiddio sut gall busnesau weithredu. Yn ôl amcangyfrifon modelu, byddai'r porthladd rhydd yn denu gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad y mae mawr ei angen, gan gynnwys tua 3,500 i 13,000 o swyddi cyflog uchel ar draws y rhanbarth. Mae gan ennill statws porthladd rhydd botensial yn awr i ddarparu newid go iawn i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru.

Bydd statws Porthladd Rhydd hefyd yn rhoi hwb sylweddol i Raglen Ynys Ynni'r cyngor sir - sy'n ceisio dod yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil a datblygu ynni carbon isel, cynhyrchiant, arloesi a gwasanaethu - ac sy'n cefnogi ei darged uchelgeisiol o gyflawni sero net erbyn 2030. Bydd y porthladd rhydd yn amsugno llawer o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y CDLIC, sy'n golygu y bydd yn rhaid dyrannu tir cyflogaeth newydd yn y CDLl newydd.

Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn bartneriaeth gyhoeddus/preifat rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line, perchnogion Porthladd Caergybi. Bydd cyllid y Llywodraeth yn cael ei reoli gan y Cyngor fel y corff atebol.

Mae'r Porthladd Rhydd yn cynnwys chwe safle treth:

- Parc Ffyniant (230 erw)
- Parc Cybi (203 erw)
- Tir M-SParc (49 erw)
- Safleoedd Bryn Cefni (32 erw)

- Hen safle Shell, Rhosgoch (203 erw)
- Hen safle Octel, Amlwch (61 erw)

Gweledigaeth y Porthladd Rhydd yw bod yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol, gyda'r nod o wneud y canlynol:

- hybu gweithgarwch economaidd, sgiliau a chyflogaeth
- lleihau allfudo a chefnogi'r iaith Gymraeg
- meithrin arloesedd a gwella masnach mewn sectorau allweddol

Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi cyrraedd carreg filltir bwysig drwy i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ffurfiol.

Roedd y cytundeb yn datgloi £25 miliwn o gyllid ac yn cefnogi'r broses o roi statws gweithredol i Borthladd Rhydd Ynys Môn yng ngwanwyn 2026

Bydd y Porthladd Rhydd yn gatalydd economaidd sylweddol i Ynys Môn a Gogledd Cymru - gan sbarduno buddsoddiad, cefnogi cyflogaeth fedrus, a chryfhau safle'r ynys o ran ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch ac arloesi. Mae gwaith paratoi, gan gynnwys llywodraethu, dynodi safleoedd treth ac ymgysylltu â thirfeddianwyr, eisoes yn mynd rhagddo'n dda.

## Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial

Un elfen allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r cyd-destun economaidd a seilwaith lleol ar Ynys Môn yw Parth Twf AI arfaethedig Gogledd Cymru. Bwriad y Parth Twf, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial cenedlaethol, yw creu hwb strategol ar gyfer datblygu deallusrwydd artiffisial, seilwaith digidol a buddsoddiad mewn canolfannau data. Mae Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial Gogledd Cymru yn cael ei gynnig gyda phrif safle ym Mharc Ffyniant ar Ynys Môn a safle ategol yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd. Mae'r fenter yn cael ei datblygu drwy gonsortiwm sy'n cynnwys Stena Line, Cyngor Sir Ynys Môn, Prifysgol Bangor a phartneriaid rhanbarthol eraill, gyda'r nod o ddenu buddsoddiad mawr gan y sector preifat, cefnogi arloesedd, a chryfhau rôl Gogledd Cymru yn economi ddigidol y DU.

O safbwynt polisi cynllunio, mae gan Barth Twf Deallusrwydd Artiffisial y potensial i weithredu fel sbardun twf economaidd sylweddol, gan gefnogi cyflogaeth uchel ei werth, gweithgareddau ymchwil a datblygu, a buddsoddiad mewn seilwaith ynni a thelathrebu strategol. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gallai'r prosiect gefnogi dros 3,400 o swyddi ledled Gogledd Cymru ac elwa o gynllunio symlach, gwell mynediad i'r grid a buddsoddiad mewn sgiliau lleol a datblygu busnesau. Mae'r cynnig hefyd yn cyd-fynd â chyfleoedd ehangach sy'n gysylltiedig â sector ynni newydd Ynys Môn, gan gynnwys datblygiad arfaethedig cynhyrchiant niwclear newydd yn Wylfa, gan helpu i sefydlu'r ynys fel lleoliad o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer technoleg uwch, ynni carbon isel a seilwaith digidol.

Dylai'r dirwedd fuddsoddi hon sy'n esblygu gael ei chydnabod mewn polisi cynllunio fel ystyriaeth berthnasol sy'n dylanwadu ar ofynion defnydd tir yn y dyfodol, darpariaeth seilwaith, twf cyflogaeth a'r strategaeth datblygu economaidd hirdymor ar gyfer Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru

DRAFT

## Safle Wylfa

Yn ystod y cyfnod monitro, gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â datblygu safle Wylfa yn y dyfodol, gan atgyfnerthu ei bwysigrwydd strategol i gyd-destun cynllunio economaidd a gofodol Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Ym mis Tachwedd 2025, cadarnhaodd Llywodraeth y DU mai Wylfa fyddai lleoliad Adweithydd Modiwlar Bach (SMR) cyntaf y DU, a disgwylir i'r safle gynnal fflyd gychwynnol o dri SMR Rolls-Royce. Mae'r cyhoeddiad yn garreg filltir bwysig i'r sector niwclear yng Ngogledd Cymru a rhagwelir y bydd yn denu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol ar yr un pryd â chefnogi miloedd o swyddi adeiladu a gweithredu tymor hir.

Yn dilyn y cyhoeddiad, dechreuodd trafodaethau masnachol a chytundebol rhwng Great British Energy - Nuclear (GBE-N) a Rolls-Royce SMR i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r prosiect a sefydlu'r fframwaith ar gyfer datblygu cam cyntaf y cynllun. Mae gan y prosiect y potensial i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi twf economaidd rhanbarthol, cryfhau'r gadwyn gyflenwi leol, a chreu cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau newydd.

Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd o ran bwrw ymlaen â chamau cynnar datblygu'r safle. Yn ystod y cyfnod monitro a'r misoedd dilynol, dechreuodd y gwaith ar asesiadau amgylcheddol, cymeradwyaethau rheoleiddiol a'r hyn sy'n ofynnol i gefnogi ceisiadau cynllunio ac adeiladu yn y dyfodol. Bwriad y gwaith cynnar hwn yw sefydlu'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol a thechnegol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r prosiect symud ymlaen drwy'r prosesau cynllunio a chydsynio.

O ystyried maint a goblygiadau economaidd posibl y prosiect, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd yn Wylfa yn ofalus ac asesu unrhyw oblygiadau o ran y galw am dai, gofynion seilwaith, llety i'r gweithlu, rhwydweithiau trafnidiaeth, cyfleusterau cymunedol a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn y dyfodol, yn ogystal â pharatoi dogfennau polisi cynllunio dilynol.

DRAFT

# Dadansoddiad o Ddangosyddion

## Cymunedau Diogel, Iach, Unigryw a Bywiog

### Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan, Awdurdodau Lleol Cymru ac ar gyfer pob Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOA). Yng Nghymru, 17.8% oedd y nifer a oedd yn gallu siarad Cymraeg, gostyngiad o 1.2% ers 2011. Mewn gwirionedd, roedd 18 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gweld gostyngiad, gyda'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (-4.0%), a gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd (+1.1%).

Ar Ynys Môn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021, roedd 37,413 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 y ganran gyfatebol oedd 57.2% gyda 38,568 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn 2011. Felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1,155.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r newid sydd wedi'i weld yn Ynys Môn ac yng Nghymru drwyddi draw ar sail canran y siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran:

| Grŵp Oedran | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| 3 – 15 | -3.5% | -5.7% |
| 16 – 24 | +1.7% | +0.8% |
| 25 – 34 | +0.7% | +0.9% |
| 35 – 49 | +3.0% | +1.1% |
| 50 – 64 | -1.5% | -0.7% |
| 65 – 79 | -4.7% | -2.1% |
| 80 + | -0.6% | -2.6% |

Mae patrwm gweddol gyson o ran pa oedrannau sydd wedi gweld cynnydd neu ostyngiad. Dylid cadw hyn mewn cof drwy drafodaethau gyda'r Gwasanaeth Dysgu i sefydlu unrhyw ystadegau mwy cyfredol sydd ganddynt ar gyfer sgiliau iaith plant yn yr ysgolion lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r 5 cymdogaeth (LSOA) sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021:

| Cymdogaeth (LSOA) | Cynnydd mewn % |
|---|---|
| Porthyfelin 2 (Caergybi) | +4.9% |
| Kingsland (Caergybi) | +2.9% |
| Llanfair-yn-neubwll 2 (Caergeiliog / Llanfihangel yn Nhowyn) | +2.6% |
| Rhosyr (Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo) | +1.9% |
| Trearddur 2 | +1.2% |

Mae rhai o'r cymdogaethau hyn wedi gweld datblygiadau tai sylweddol ers 2011 sy'n adlewyrchu twf y boblogaeth. Gwelodd Kingsland (Caergybi) dwf o 176 o bobl yn ei boblogaeth 3 oed a hŷn rhwng 2011 a 2021 gydag ystâd Cae Rhos yn ychwanegu tua 50 o dai at y gymdogaeth. Yn Nhrearddur 2, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 391 i 364 (- 27) ond gostyngodd nifer y di-Gymraeg o 767 i 677 (-90). Yn y cyfnod 2019 i 2023 mae nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau yng Nghyngor Cymuned Trearddur wedi cynyddu o 387 uned i 455 (+68).

Yng Nghaergeiliog, sy'n rhannol o fewn Llanfair-yn-neubwll 2, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig o 485 yn 2011 i 481 yn 2021 (-4) tra bo'r nifer di-Gymraeg wedi gostwng o 915 yn 2011 i 812 yn 2021 (-103). Yn y cyfnod 2019 i 2023 dim ond cynnydd o 1 uned sydd wedi bod yn nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau o 37 i 38 uned. Felly, mae'n annhebygol bod y gostyngiad yn nifer y bobl ddi-Gymraeg yn y gymuned hon wedi cael ei sbarduno gan gynnydd mewn ail gartrefi / llety gwyliau ers 2011. O ran tai newydd yn y cyfnod 2011 i 2021 cwblhawyd 6 uned yng Nghaergeiliog.

Ym Mhorthyfelin 2 (Caergybi) mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu o 449 yn 2011 i 501 yn 2021 (+52) ac mae'r nifer di-Gymraeg wedi gostwng o 684 yn 2011 i 625 yn 2021 (-59). O ran datblygiadau tai nid oes safle sylweddol wedi'i ddatblygu yn y gymdogaeth sydd efallai yn rheswm bod y boblogaeth 3 oed a hŷn wedi gostwng ychydig o 1,133 yn 2011 i 1,126 yn 2021 (-7).

O ran y 5 cymdogaeth sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 mae'r manylion yn y tabl canlynol:

| Cymdogaeth (LSOA) | Cynnydd mewn niferoedd |
|---|---|
| Kingsland (Caergybi) | +122 |
| Parc a'r Mynydd (Caergybi) | +115 |
| Llanfihangel Esceifiog (Gaerwen) | +98 |
| Cyngar (Llangefni) | +97 |
| Llanfair yn Neubwll 1 (Bodedern / Caergeiliog) | +86 |

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r cymdogaethau (LSOA) sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021:

| Cymdogaeth (LSOA) | Gostyngiad yn ôl % |
|---|---|
| Cefni (Llangefni) | -7.9% |
| Llaneilian (Penysarn/Rhosybol) | -6.3% |
| Tudur (Llangefni) | -5.9% |
| Llanbadrig (Cemaes) | -5.3% |
| Porth Amlwch | -3.0% |

Cynyddodd poblogaeth Cefni (Llangefni) 215, gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 42 ond nifer y di-Gymraeg yn cynyddu 173. Yn Llaneilian (Penisarn / Rhosybol) mae 69 yn fwy o

bobl yn byw yno, ond mae 104 yn llai o bobl yn siarad Cymraeg ac mae 173 yn fwy o bobl yn ddi-Gymraeg. Mae poblogaeth Tudur (Llangefni) wedi cynyddu 34 o ran ei phoblogaeth 3 oed a hŷn ond cafwyd gostyngiad o 62 yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd o 96 yn nifer y bobl ddi-Gymraeg. Yn Llanbadrig (Cemaes) mae'r boblogaeth 3 oed a hŷn wedi gweld gostyngiad o 168 yn nifer y bobl, gyda gostyngiad o 149 yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a 19 yn nifer y bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae Porth Amlwch, sydd yn cynnwys y mwyafrif helaeth o'r Dref, wedi gweld gostyngiad o 46 yn ei boblogaeth efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi lleihau o 148 person tra bod y nifer di-gymraeg wedi cynyddu o 102 person.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D1**. % siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |
| **Targed** | Mae datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. (Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiadau newydd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau unigol ac Ardal y Cynllun yn faes anodd i'w fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cyngor o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau gweithredu er mwyn monitro effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir o dan y thema hon.) |
| **Trothwy** | Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol sydd wedi'u cwblhau, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 - Polisi TAI 7, erbyn 2019 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae rôl cynllunio wedi'i chyfyngu i geisio creu'r amgylchiadau gorau posibl drwy bolisïau'r Cynllun i hwyluso datblygu cynaliadwy a allai gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o bolisïau yn y Cynllun sy'n helpu i hwyluso datblygu cynaliadwy, sef: <br>• Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' sy'n atal unrhyw dai marchnad agored o fewn |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| yr aneddiadau arfordirol a restrwyd;<br>• Mae Polisi TAI 15 'Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy ' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygu 2 neu fwy o unedau tai o fewn Canolfannau a Phentrefi;<br>• Mae Polisi TAI 16 'Safleoedd Eithriedig' yn cefnogi datblygiadau sy'n cynnwys tai fforddiadwy 100%;<br>• Mae Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' yn cefnogi darpariaeth tai fforddiadwy yn unig;<br>• Mae Polisi TAI 8 'Cymysgedd Tai Priodol' yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai a diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan;<br><br>Oherwydd dibynadwyedd ac argaeledd ffigurau sgiliau iaith o Gyfrifiad 2021, eleni mae'r AMB (fel o'r blaen) yn canolbwyntio ar ffigurau'r Cyfrifiad yn hytrach na ffigurau o arolygon blynyddol.<br><br>Ar Ynys Môn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021, roedd 37,413 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 y ganran gyfatebol oedd 57.2% gyda 38,568 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn 2011. Felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1,155.<br><br>Fel yr amlygwyd yn y bennod flaenorol, mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr tra bod eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y ganran. I rai cymdogaethau, gall hyn fod yn seiliedig ar golli unedau o'r stoc dai i'w defnyddio fel ail gartrefi / llety gwyliau. Mewn llawer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg, ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Un mater sydd wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf yw effaith ail gartrefi / llety gwyliau ar y stoc dai. Mae hyn yn creu problem i'r gymuned leol y gellir ei phrisio allan o'r farchnad dai agored. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r broblem hon drwy ddiwygio'r dosbarthiadau defnydd ar gyfer tai. Yn flaenorol, roedd defnyddio tŷ annedd at ddibenion ail gartref neu lety gwyliau tymor byr yn cael ei ddiffinio fel defnydd C3 (tŷ annedd) ac o'r herwydd nid oedd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer y defnyddiau hyn. Bellach, trwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, cyflwynwyd dosbarthiadau defnydd penodol ar gyfer:<br>• C3: Prif gartref<br>• C5: Ail gartref<br>• C6 Llety gwyliau tymor byr<br><br>Er mwyn gallu rheoli'r newid defnydd digyfyngiad hyn, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Fe fyddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn diddymu'r hawliau datblygu a ganiateir penodol ac yn seiliedig ar allu profi fod yna amgylchiadau eithriadol yn bodoli.<br><br>Er mwyn gallu rheoli'r newidiadau defnydd digyfyngiad hyn, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dirymu hawliau datblygu penodol a ganiateir os oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli. Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am ganiatâd cynllunio i newid defnydd o fod yn brif ofod preswyl (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd ail gartref (dosbarth defnydd C5) neu lety gwyliau (Dosbarth defnydd |

**Dadansoddiad.**

C6). (Gweler Pennod 2 uchod am fanylion y newidiadau Cenedlaethol hyn). Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 drafft yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael a chwblhau caniatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun:

| Cyfnod | Nifer yr Unedau a gafodd ganiatâd cynllunio ac a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun | Nifer sy'n Dai Fforddiadwy | Canran y Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| AMB 1 | 56 | 35 | 62.5% |
| AMB 2 | 90 | 45 | 50.0% |
| AMB 3 | 125 | 55 | 44.0% |
| AMB 4 | 205 | 87 | 42.4% |
| AMB 5 | 231 | 117 | 50.6% |
| AMB 6 | 178 (Ynys Môn yn unig) | 53 | 29.8% |
| AMB 7 | 249 (Ynys Môn yn unig) | 104 | 41.8% |
| AMB 8 | 154 (Ynys Môn yn unig) | 114 | 74% |

**Dadansoddiad.**

Mae'r ffactorau y cyfeirir atynt uchod yn tynnu sylw at sut mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned leol.

Ym mlwyddyn fonitro 2025-2026, roedd cyfran uchel o anheddau a gwblhawyd yn cael eu darparu fel tai fforddiadwy, gan ddangos rôl barhaus polisïau tai'r Cynlluniau o ran cefnogi cymunedau lleol. Fel y gwelir o ganlyniadau'r cyfrifiad, fodd bynnag, mae llawer o'r newidiadau mewn defnydd o'r Gymraeg dan ddylanwad tueddiadau demograffig ehangach a thueddiadau'r farchnad dai sy'n effeithio ar y stoc dai bresennol sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cynllun.

**Camau gweithredu.**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D2**. Caniateir ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru ar gyfer yr iaith Gymraeg. |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |
| **Targed** | Lle bo angen, mae niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn cael ei osgoi neu ei liniaru'n briodol yn unol â Pholisi PS 1 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn yn groes i Bolisi PS1 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

**Dadansoddiad.**

Yn y flwyddyn 2025/26 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 154 o unedau tai newydd (h.y. safleoedd nad oedd ganddynt ganiatâd ar y dyddiad y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu). Mae'r unedau hyn wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a nodir yn y tabl isod:

| Maint Ceisiadau Tai | Nifer y Safleoedd | Cyfanswm yr unedau |
|---|---|---|
| 1 uned | 10 | 10 |
| 2 i 5 uned | 1 | 2 |
| 6 i 10 uned | 0 | 0 |
| 11+ uned | 6 | 142 |

**Dadansoddiad.**

Cafwyd 4 Asesiad Ieithyddol a 7 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau a benderfynwyd arnynt lle roeddent yn cwrdd â'r trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 am fanylion y math o geisiadau y cyflwynwyd y rhain gyda hwy). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 y Ddeddf, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n disgyn o dan y trothwy o'r rhai sydd angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn groes i bolisi PS1 yn ystod y flwyddyn fonitro. Felly, mae'r dangosydd yn parhau i gyrraedd ei darged.

**Camau gweithredu.**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D3**. Nifer y ceisiadau cynllunio y mae datganiad Cymraeg neu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn cyd-fynd â hwy. |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |

| | |
|---|---|
| **Targed** | Rhaid cynnwys datganiad Cymraeg neu asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg gyda phob cais cynllunio perthnasol. |
| **Trothwy** | Un datganiad Cymraeg neu asesiad effaith ar y Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n mynd i'r afael â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

**Dadansoddiad.**

Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd cyfanswm o 7 Datganiad Iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau o dan y trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Yn yr achosion lle cyflwynwyd Datganiadau/Asesiadau Iaith Gymraeg nad oeddent yn dilyn prif strwythur y templed ymateb yn y CCA "Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy" a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2019. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA a fabwysiadwyd.  Ystyrir bod y polisïau'n parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

Yn gyffredinol, diben y rhan fwyaf o Ddatganiadau a ddaw i law yw cefnogi ceisiadau newid defnydd lle mae'r adeilad/gofod presennol yn cael ei addasu i ddefnydd newydd, yn hytrach na thai newydd:

- Twristiaeth/hamdden: adeilad allanol wedi'i addasu'n llety gwyliau tymor byr a derbynfa safle carafanau - FPL/2025/217.
- Economi hamdden/nos yng nghanol tref: newid hen siop yn far gemau/chwaraeon/gweithgareddau dan do - FPL/2025/222.
- Gwasanaeth iechyd/cymunedol: annedd wedi'i newid yn ddeintyddfa a chlinig iechyd - FPL/2025/240.
- Ffitrwydd/ail-ddefnydd cymunedol: newid capel segur yn gampfa - FPL/2025/249.

Felly, y patrwm yn bennaf yw ailddefnyddio eiddo presennol at ddibenion masnachol, hamdden, twristiaeth a gwasanaethau cymunedol.

| **Camau gweithredu.** |
| --- |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
| --- | --- |
| **Dangosydd** | **D4**. Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i hyrwyddo'r gwaith o gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro |

| | |
| --- | --- |
| **Dangosydd** | **D5**. Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. |
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 1, ISA 2, ISA 4, ISA 5.** |
| **Targed** | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA 1. |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
| --- | --- |
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
| --- |
| Mae polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth seilwaith yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Os nad yw hyn yn wir, yna gellir gofyn am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i sicrhau bod digon o gapasiti seilwaith yn bodoli. Cyflwynwyd 1 cais cynllunio lle'r oedd seilwaith newydd neu well drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd hyn ar gyfer cyfraniadau ar gyfer gwelliannau priffyrdd lleol a sicrhawyd drwy gytundeb A106 ar gyfer y cam diweddaraf yn natblygiad tai Parc y Coed yn Llangefni (Cyfeirnod y Cais: FPL/2025/4).<br><br>Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 yn ystod y cyfnod monitro. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Felly, mae'r targed i atal datblygiadau rhag cael eu cymeradwyo lle nad oes digon o seilwaith mewn unrhyw flwyddyn yn cael ei gyrraedd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D6**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau. |
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 1, ISA 2, ISA 4, ISA 5.** |
| **Targed** | Cyfleusterau cymunedol hyfyw yn cael eu cadw yn unol â Pholisi ISA 2. |
| **Trothwy** | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Nod Polisi ISA 2 yw diogelu cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Cyflwynwyd cyfanswm o 6 chais cynllunio lle byddai hen gyfleuster cymunedol yn cael ei golli fel rhan o'r datblygiad (2 hen feithrinfa a 2 gyn gapel fel defnyddiau masnachol a phreifat eraill, cyn ysgol gynradd Dwyran fel cynwysyddion storio ar safle a chyn uned Fferyllfa yng Nghaergybi yn hyb bancio adwerthol newydd ar gyfer tref Caergybi). Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r ceisiadau hyn yn groes i Bolisi ISA 2 gan fod tystiolaeth nad oedd y cyfleusterau dan sylw yn hyfyw a/neu nad oeddent wedi |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| cael eu defnyddio am gyfnod digonol o amser a/neu wedi adleoli i adeilad arall.<br><br>Felly, mae'r targed i atal colli datblygu cyfleusterau cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn yn cael ei gyrraedd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

DRAFFT

# Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr

## Mannau Agored

Mae gan fannau agored swyddogaeth bwysig o fewn cymunedau ardal y Cynllun ac adlewyrchir hyn yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu mannau agored presennol a'i gwneud yn ofynnol darparu mannau agored i ddiwallu anghenion y datblygiad tai newydd. Ers mabwysiadu'r Cynllun, mae polisïau wedi diogelu mannau agored mewn cymunedau ac maent hefyd wedi sicrhau bod mannau agored newydd yn cael eu creu, eu cynnal a'u gwella.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D7**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen ar ardaloedd o fannau agored. |
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 4** |
| **Targed** | Swm y mannau agored (ha) mewn setliadau unigol a gedwir yn unol â Pholisi ISA 4 |
| **Trothwy** | Man agored a gollir mewn unrhyw ganolfan neu bentref mewn unrhyw flwyddyn sy'n arwain at ostyngiad net yn y cyflenwad yn y ganolfan neu'r pentref yn groes i Bolisi ISA 4 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Cymeradwywyd 3 chais cynllunio llawn ar safleoedd sy'n rhannol yn fannau agored gwarchodedig a nodir yn y cynllun (ar y map cynigion). Roedd un cais am annedd newydd yng Nghaergybi ac roedd y ddau gais arall wedi'u lleoli yn Ystâd Ddiwydiannol Amlwch ar gyfer gwelliannau ar y safle, gan gynnwys basn cadw dŵr wyneb newydd a thriniaeth ffiniau ar gyrion y safle. Ym mhob achos, roedd y cynigion yn cydymffurfio â meini prawf Polisi ISA 4 ac nid oeddent yn arwain at golli man agored gwarchodedig yn annerbyniol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 4 yn ystod y cyfnod monitro. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D8**. Man agored (ha) wedi'i sicrhau mewn cysylltiad â datblygiad preswyl o 10 uned neu fwy |
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 5** |
| **Targed** | Darparu man agored newydd os yw cymhwyso safonau meincnod Meysydd Chwarae Cymru (FiT) yn nodi diffyg mannau agored yn unol â Pholisi ISA 5. |
| **Trothwy** | Un cais cynllunio a ganiateir mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n cyfrannu at ddiwallu anghenion mannau agored meddianwyr tai newydd fel y'u diffinnir gan safon meincnod FiT, yn groes i Bolisi ISA 5. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae chwe chais am 10 neu fwy o anheddau wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod AMB hwn. Nid oedd angen darpariaeth man agored / cyfraniad ariannol newydd ar gyfer 3 o'r ceisiadau gan fod digon o fannau agored yn y gymuned berthnasol a/neu ddigon o fannau agored wedi'u darparu fel rhan o'r datblygiad arfaethedig:<br><br>Mae'r 3 chais arall yn darparu cyfanswm cyfraniad ariannol o **£25,546.21** (£4,623.323 + £12,902.19 + £8,020.99)<br><br>Ystyrir bod Polisi ISA 5 yn parhau i gael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D9**. Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 1, dim angen parhau i'w fonitro |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D10**. Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 1, dim angen parhau i'w fonitro |

## Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D11**. Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio |
| **Amcan** | **SO3**. Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel i gyfleusterau cyflogaeth, gwasanaethau ac addysg/hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>**SO4.** Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol pwysig a'r A55, llwybr rhwydwaith Traws-Ewropeaidd E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau trafnidiaeth allweddol:<br><br>Allbynnau allweddol:<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu at greu mwy o gymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd unrhyw seilwaith cymunedol wedi cael ei golli oni bai fod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn hanfodol i'r gymuned;<br>• Bydd y datblygiad yn cael ei leoli er mwyn darparu cyfleoedd i bobl ymgymryd â'r daith lawn i'r gwaith neu ran ohoni ar droed, ar feic neu ar fysiau a threnau.<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau hanfodol i ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4** |
| **Targed** | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis i fabwysiadu'r Cynllun |
| **Trothwy** | Peidio â mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis i fabwysiadu'r Cynlluniau. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| | |
|---|---|
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. Pennwyd amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Ni chyrhaeddwyd y targed hwn oherwydd newidiadau yn amserlen waith y CDLl a blaenoriaethau o ran adnoddau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi 'cadw' CCA o'r Cynllun Datblygu Unedol a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D12**. Nifer y ceisiadau cynllunio gydag asesiad teithio. |
| **Amcan** | **SO3**. Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel i gyfleusterau cyflogaeth, gwasanaethau ac addysg/hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>**SO4.** Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol pwysig a'r A55, llwybr rhwydwaith Traws-Ewropeaidd E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau trafnidiaeth allweddol:<br><br>Allbynnau allweddol:<br>• Bydd y datblygiad yn cael ei leoli er mwyn darparu cyfleoedd i bobl ymgymryd â'r daith lawn i'r gwaith neu ran ohoni ar droed, ar feic neu ar fysiau a threnau.<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau hanfodol i ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4** |
| **Targed** | Pob cais cynllunio perthnasol sy'n uwch na'r trothwy perthnasol a nodir ym Mholisi TRA 1 gydag asesiad teithio. |
| **Trothwy** | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn heb asesiad teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

**Dadansoddiad.**

Cafodd 1 cais mawr ei gefnogi gan Asesiad Trafnidiaeth (mae Tabl 6 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dangos y trothwyon datblygu ar raddfa fawr ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth):

RM/2024/2: Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi ail adeilad ynghyd â datblygiad cysylltiedig ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen.

Ni chafwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan fo angen hynny.

Mae'r polisi'n glir ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a nodir yn 'Tabl 6: Maint y datblygiad y mae angen ei asesu o ran trafnidiaeth.' Mae swyddogion yn gofyn am asesiad ar adeg yr ymholiad cyn ymgeisio neu'r cam cais cynllunio os nad yw wedi'i gynnwys fel rhan o'r cyflwyniad.

Yn ystod y cyfnod monitro, cafodd 391 o geisiadau eu cefnogi gan Ddatganiadau Trafnidiaeth a chyflwynwyd 31 o Gynlluniau Rheoli Traffig Adeiladu yn y cyfnod AMB hwn.

Ystyrir bod Polisi TRA 1 yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.

**Camau gweithredu.**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D13**. Nifer y ceisiadau a ganiateir mewn safleoedd / ardaloedd a ddiogelir ar gyfer trafnidiaeth. |
| **Amcan** | **SO3**. Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel i gyfleusterau cyflogaeth, gwasanaethau ac addysg/hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>**SO4.** Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol pwysig a'r A55, llwybr rhwydwaith Traws-Ewropeaidd E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau trafnidiaeth allweddol:<br><br>Allbynnau allweddol: |

| | |
|---|---|
| | • Bydd y datblygiad yn cael ei leoli er mwyn darparu cyfleoedd i bobl ymgymryd â'r daith lawn i'r gwaith neu ran ohoni ar droed, ar feic neu ar fysiau a threnau.<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau hanfodol i ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4** |
| **Targed** | Ni chaniateir ceisiadau cynllunio sy'n niweidiol i wireddu cludiant. |
| **Trothwy** | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn yn groes i Bolisi TRA 1. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae Ffordd Gyswllt Llangefni wedi'i chwblhau'n llawn ac mae ar agor i'r cyhoedd. Yn ystod cyfnod monitro 2025-2026 ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio a fyddai'n niweidiol neu'n effeithio'n andwyol ar dir a ddiogelir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth yn unol â pholisïau trafnidiaeth perthnasol y Cynllun. Ystyrir felly bod y Cynllun yn parhau i ddiogelu tir sydd ei angen ar gyfer seilwaith trafnidiaeth a bod polisi TRA 1 yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D14**. Cwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni (Cam 4) |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 1, dim angen parhau i'w fonitro |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D15**. Cyflawni gwelliannau i'r A5025 |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 1, dim angen parhau i'w fonitro |

# Byw'n Gynaliadwy

## Datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D17**. Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd yn ôl categori TAN 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1 |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, ADN 1, AND 2, AND 3.** |
| **Targed** | Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 yn methu â bodloni'r holl brofion a nodir yn TAN 15 |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn o fewn gorlifdir C1 nad yw'n bodloni holl brofion TAN 15. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Nid yw Parthau Llifogydd C1, fel y'u diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, yn berthnasol yn Ynys Môn. O ganlyniad, nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio i'w monitro yn erbyn y dangosydd hwn yn ystod cyfnod monitro 2025-2026. Ystyrir felly bod y polisïau perthnasol yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D18**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C2. |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, ADN 1, AND 2, AND 3.** |
| **Targed** | Ni chaniateir ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2. |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 newydd wedi'i ddiweddaru - Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol - wedi cael ei baratoi gan Bolisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar 31 Mawrth 2025. Yn yr adroddiad newydd, mae parthau llifogydd newydd wedi cael eu hystyried (Parthau 1, 2 a 3), sydd wedi'u diweddaru ac sy'n gwbl wahanol i'r parthau C1 ac C2 blaenorol y mae'r adroddiadau monitro blynyddol wedi'u hystyried o'r blaen.<br><br>Serch hynny, Parth Llifogydd 3 - Tebygolrwydd Uchel o Lifogydd, yw'r hyn sy'n cyfateb agosaf i'r parth llifogydd C2 blaenorol erbyn hyn, ac felly gellir ei ystyried ar gyfer y Dangosydd Monitro hwn er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol.<br><br>Yn ystod cyfnod monitro 2025-2026, caniatawyd 42 cais cynllunio llawn ar safleoedd a oedd o fewn parth llifogydd 3. Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddatblygiad agored iawn i niwed' yn unol â Ffigur 4 - Categorïau gwendidau datblygu Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd). Ymhellach, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/yn llwyr) o fewn parth llifogydd 3 yn cydymffurfio â'r profion a gynhwysir yn TAN 15.<br><br>Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS6, 1 PCYFF a PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd. Ystyrir felly bod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D19**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu Maes Llwyd ac addasu adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau bob blwyddyn |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy: |

| | |
|---|---|
| | • sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, ADN 1, AND 2, AND 3.** |
| **Targed** | Cynnal neu gynyddu cyfran y datblygiad newydd a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd ac addasu adeiladau presennol) o'i gymharu â % gyfartalog a gofnodwyd yn ystod blynyddoedd AMB blaenorol |
| **Trothwy** | Gostyngiad yng nghyfran y datblygiad a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd ac addasu adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Oherwydd natur wledig yr ardal, mae'r cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i safleoedd bach. Er bod datblygu'n cael ei arwain tuag at ddefnyddio'r safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae pwysau i ddatblygu meysydd glas yn anochel, yn enwedig o ganlyniad i natur y cynigion, e.e. cynlluniau ynni adnewyddadwy, tai y tu allan i ffiniau datblygu, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae cyfran y datblygiadau ar dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu ar Ynys Môn fel a ganlyn:<br><br>• Ynys Môn 2015-2016 = 20.72ha (61%)<br>• Ynys Môn 2016-2017 = 28.00ha (50%)<br>• Ynys Môn 2017-2018 = 13.81ha (49%) |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| • Ynys Môn 2018-2019 = 4.33ha (21%)<br>• Ynys Môn 2019-2020 = 52.9ha (82.28%) (Roedd y ffigur hwn yn cynnwys addasiadau i<br>• drac rasio presennol, ac roedd arwynebedd y safle yn 41.4ha)<br>• Ynys Môn 2020-2021 = 15.20ha (72.8%)<br>• Ynys Môn 2021-2022 = 15.97ha (49.3%)<br>• Ynys Môn 2022-2023 = 41.25ha (79.6%)<br>• Ynys Môn 2023-2024 = 14.71ha (56%)<br>• Ynys Môn 2024-2025 = 1.33ha (11.7%)<br>• Ynys Môn 2025-2026 = 66.47ha (89.69%)<br><br>Mae nifer a chyfran y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynnydd hwn oherwydd y caniatâd amlinellol a roddwyd ar gyfer y Parc Ffyniant newydd, Caergybi, datblygiad ar raddfa sylweddol o dir llwyd a ddatblygwyd o'r blaen ar safle blaenorol Alwminiwm Môn, |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| **Dangosydd** | **D20**. Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir y tu allan i ffiniau datblygu |
|---|---|
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, ADN 1, AND 2, AND 3.** |
| **Targed** | Ni chaniateir ceisiadau cynllunio y tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn bodloni gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill. |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio y tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n bodloni gofynion polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Cymeradwywyd cyfanswm o 242 o geisiadau y tu allan i ffiniau datblygu yn ystod cyfnod monitro 2025-2026. Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn debyg i'r cyfnod AMB 7 blaenorol o 247 a gymeradwywyd, ond mae'r ddau yn uwch na'r 189 a gymeradwywyd yn ystod AMB 6<br><br>Roedd y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn geisiadau gan ddeiliaid tai neu'n geisiadau i ddilysu amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd (ceisiadau Adran 73)<br><br>Roedd datblygiadau tai a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn cynnwys cynigion gyda chlystyrau cydnabyddedig, anheddau mentrau gwledig ac anheddau newydd, ac roedd pob un ohonynt yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cynllun. Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau tai ar y farchnad agored y tu allan i unrhyw ffin datblygu.<br><br>Roedd nifer o geisiadau cynllunio'n ymwneud â datblygu gwledig gan gynnwys twristiaeth, datblygu cymunedol ac amaethyddol sydd, oherwydd eu natur, wedi'u lleoli'n briodol y tu allan i ffiniau datblygu. Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i Bolisi PCYFF 1. Mae canlyniadau'r monitro felly'n dangos bod datblygiad y tu allan i ffiniau anheddiad yn parhau i gael ei reoli'n briodol drwy bolisïau'r Cynllun. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

## Technoleg Ynni Adnewyddadwy

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D21**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiatawyd, fesul technoleg, ardal (ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodwyd (GWh) |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau |

| | |
|---|---|
| | cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 1** |
| **Targed** | • 50% o'r potensial ynni adnewyddadwy (1,113.35 GWh) yn cael ei ddarparu erbyn 2021 i fynd i'r afael â'r galw am drydan<br>• 100% o'r potensial ynni adnewyddadwy (2,226.7 GWh) yn cael ei ddarparu erbyn 2026 i fynd i'r afael â'r galw am drydan<br>• 50% o'r potensial ynni adnewyddadwy (23.65 GWh) yn cael ei ddarparu erbyn 2021 i fynd i'r afael â'r galw am wres<br>• 100% o'r potensial ynni adnewyddadwy (47.3 GWh) yn cael ei ddarparu erbyn 2026 i fynd i'r afael â'r galw am wres |
| **Trothwy** | Mae swm yr ynni a gynhyrchir o ffynonellau ynni adnewyddadwy 10% neu fwy yn is na'r gofynion a nodir yn y Targed Polisi |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn parhau i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel priodol ledled Ynys Môn. Yn ystod cyfnod monitro 2025-2026, |

| Dadansoddiad. |
| --- |
| roedd cyfran sylweddol o'r ceisiadau y penderfynwyd arnynt yn ymwneud â thechnolegau adnewyddadwy ar raddfa ddomestig, yn enwedig pympiau gwres ffynhonnell aer (26 o geisiadau), gan adlewyrchu'r newid parhaus tuag at wresogi carbon isel a gwell effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai bresennol.<br><br>Mae sylfaen dystiolaeth y CDLlC yn nodi potensial ynni adnewyddadwy ledled ardal gyfun Cynllun Gwynedd a Môn ac nid yw'n darparu targedau ar wahân ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. O ganlyniad, dim ond yn erbyn y data cynhyrchu ynni diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ardal ehangach y Cynllun y gellir asesu cynnydd.<br><br>Mae cyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru, Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025), yn dangos bod capasiti a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn parhau i gynyddu ledled Cymru. Er bod data cynhyrchu ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dal yn gyfyngedig, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos twf parhaus mewn capasiti ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod ers mabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Roedd targed y dangosydd yn amcanu at gynhyrchu 1,113.35 GWh o drydan adnewyddadwy a 23.65 GWh o wres adnewyddadwy erbyn 2021, gan godi i 2,226.7 GWh a 47.3 GWh yn y drefn honno erbyn 2026. Ar sail y wybodaeth fonitro sydd ar gael, nid yw'r targedau hyn wedi'u cyflawni eto. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd yr amseroedd arwain hir sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith ynni adnewyddadwy mawr yn hytrach na methiant polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Ar gyfer cyfnod monitro 2025-2026, mae'r prif brosiectau ynni adnewyddadwy strategol yn ardal Ynys Môn yn cynnwys:<br><br>• Parc Solar Traffwll (35MW) – Caniatawyd gan Weinidogion Cymru ym mis Mawrth 2023. Mae'r prosiect yn dal yn y cam cyn adeiladu gyda'r gwaith o gyflawni amodau cynllunio a threfniadau cysylltu yn mynd rhagddo. Mae'r wybodaeth bresennol yn dangos bod y gwaith adeiladu'n debygol o ddechrau yn 2027 a rhagwelir y bydd yn weithredol yn 2028.<br><br>• Fferm Wynt Trysglwyn (5.6MW) - Caniatâd wedi cael ei roi i ymestyn y cyfnod gweithredol tan fis Mehefin 2031, gan gynnal ffynhonnell bresennol o drydan adnewyddadwy yn ardal y Cynllun.<br><br>• Cyfleuster Biomas Caergybi (299MW) - Mae Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon wedi cadarnhau bod y datblygiad wedi dechrau'n gyfreithlon.<br><br>• Fferm Solar Porth Wen (49.99MW) - Mae'r fferm solar yn weithredol ac yn cyfrannu at gynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y Sir.<br><br>• Cynllun Ynni Llanw Morlais (hyd at 240MW) - Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni seilwaith, gan gynnwys gwaith cysylltu â'r grid a rhagor o gymorth buddsoddi. Mae'r prosiect yn parhau i fod yn un o'r cynlluniau ynni llanw mwyaf yn Ewrop sydd wedi cael caniatâd. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2026, nid oedd cynhyrchu ynni llanw masnachol wedi dechrau eto.<br><br>• Cynllun Pwmpio a Storio Hydro Glyn Rhonwy (100MW) - Mae'r cynllun yn dal wedi'i ganiatáu, er nad oes amserlen weithredu wedi'i chyhoeddi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae maint y prosiectau a ganiatawyd a'r prosiectau gweithredol a nodir uchod yn dangos bod capasiti ynni adnewyddadwy sylweddol naill ai ar gael yn barod neu bod modd ei ddarparu ar Ynys Môn. Er nad yw'r targed monitro wedi'i gyrraedd eto, mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r prif gyfyngiad o hyd yw amserlenni gweithredu ac adeiladu prosiectau yn hytrach nag effeithiolrwydd polisïau ynni adnewyddadwy'r Cynllun.<br><br>Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gyfrannu at ddatblygu a gweithredu gwaith Cynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP). Bydd hyn yn helpu i sefydlu sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddaru a thargedau ynni adnewyddadwy realistig i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a chefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion datgarboneiddio cenedlaethol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd angen adolygu'r polisïau Ynni Adnewyddadwy a dylid cyflawni potensial technoleg o'r fath a nodir yn y CYAL wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D22**. Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 7** |
| **Targed** | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis i fabwysiadu'r Cynllun |
| **Trothwy** | Peidio â mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis i fabwysiadu'r Cynllun |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| | |
|---|---|
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

**Dadansoddiad.**

Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA hwn oherwydd yr angen i flaenoriaethu CCA eraill a gymerodd fwy o amser i'w paratoi.  Ar ben hynny, ers gwahanu'r Uned Cynllunio ar y Cyd, canolbwyntiwyd ar baratoi'r CDLl newydd ar gyfer Ynys Môn.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol yn ardal y Cynllun, a allai adlewyrchu'r symudiad tuag at baratoi datblygiadau yn y môr a gostyngiad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer datblygiadau o'r fath ar dir. Dylid nodi hefyd bod yr holl ddatblygiadau ynni mawr ar gyfer 10MW neu fwy yn cael eu hystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru.

Mae mabwysiadu Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ynghyd â diwygiadau dilynol i Bolisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Ardal Ynni Lleol yn golygu bod newidiadau cyd-destunol sylweddol mewn perthynas â hyn wedi newid y cyd-destun strategol ar gyfer technoleg ynni adnewyddadwy yn sylweddol. Bydd adolygiad o'r polisïau Ynni Adnewyddadwy yn y Cynllun yn cael ei gynnal yng ngoleuni'r newidiadau cyd-destunol hyn yn ogystal â'r gwaith o baratoi Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) a fydd yn galluogi gwerthusiad o'r angen a'r cynnwys ar gyfer CCA technoleg ynni adnewyddadwy annibynnol yn y dyfodol.

**Camau gweithredu.**

Bydd yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol ar dechnoleg ynni adnewyddadwy yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd gan ystyried y Cynllun Ynni Ardal Leol a'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D23**. Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiatawyd yn ardal y Cynllun. |
| **Amcan** | **SO5**. Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>**SO6.** Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Cyflawnir hyn drwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle bynnag y bo modd; |

| | |
|---|---|
| | • lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, AND 1 , AND 2** |
| **Targed** | Isafswm dwysedd net cyfartalog o 30 uned tai yr hectar wedi'i gyflawni'n gyffredinol yn ardal y Cynllun. |
| **Trothwy** | Methu â chyflawni dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai yr hectar yn ardal y Cynllun am ddwy flynedd yn olynol, oni bai fod Polisi PCYFF 2 yn cyfiawnhau hynny. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

**Dadansoddiad.**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru dwysedd datblygiadau tai perthnasol ar raddfa fawr a ganiatawyd (10 neu fwy o unedau preswyl) yn ystod y cyfnod AMB hwn ac a yw'n cyrraedd y targed a nodir yn y CDLIC, sef 30 uned yr hectar:

| Cais | Nifer yr unedau a ganiateir | Arwynebedd cymeradwyo caniatâd cynllunio (ha) | Dwysedd y datblygiad (unedau fesul hectar) | Cyrraedd y Targed? |
|---|---|---|---|---|
| FPL/2023/15 | 15 | 0.58 | 26 | Na |
| FPL/2025/46 | 11 | 0.11 | 100 | Do |
| FPL/2024/76 | 27 | 1.27 | 21 | Na |
| FPL/2025/11 | 28 | 1.08 | 26 | Na |
| FPL/2025/4 | 31 | 0.81 | 38 | Do |
| FPL/2025/105 | 30 | 1.01 | 30 | Do |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae'r tabl yn dangos bod y dwysedd targed o 30 annedd yr hectar wedi'i gyrraedd ar 3 o'r 6 phrif gais a ganiatawyd yn y flwyddyn fonitro hon.<br><br>Er na chyrhaeddwyd y targed yn ystod y cyfnod monitro hwn, roedd gan y safleoedd nad oeddent wedi cyflawni'r dwysedd targed nodweddion penodol a oedd yn cyfiawnhau dwysedd is fel gofynion SUDS a mannau amwynder gofynnol. Mae'r tîm Rheoli Datblygu yn parhau i ohebu â datblygwyr i sicrhau bod y targed dwysedd yn cael ei gyrraedd yn y dyfodol.<br><br>Yn unol â Pholisi PCYFF2, gall dwyseddau is fod yn briodol lle mae cyfyngiadau penodol ar y safle, ystyriaethau tirwedd neu gymeriad yr ardal gyfagos yn cyfiawnhau math llai dwys o ddatblygiad. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D24**. Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio |
| **Amcan** | **SO7**. Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyrraedd safonau uchel o ran ansawdd dylunio, effeithlonrwydd ynni, diogelwch, diogeledd (unigolion ac eiddo) a hygyrchedd, yn cydweddu'n dda â datblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu lleoedd o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4** |
| **Targed** | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis i'w mabwysiadu |
| **Trothwy** | Peidio â mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis i fabwysiadu |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Ar hyn o bryd, nid yw'r targed polisi yn cael ei gyflawni yn ôl y disgwyl, ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.<br><br>Pennwyd amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Ni chyflawnwyd y targed hwn oherwydd gwahanu'r uned polisi cynllunio ar y cyd gyda'r ffocws ar baratoi CDLl newydd Ynys Môn.<br><br>Mae gan y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol 'wedi'u cadw' o'r Cynllun Datblygu Unedol a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.<br><br>Gan fod polisi Dylunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cyd-fynd â'r Canllawiau Cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriant o ran darparu CCA newydd wedi bod yn niweidiol i'r broses o wneud penderfyniadau |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D25**. Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn yr Hierarchaeth Aneddiadau a nodir ym Mholisi PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygir bob blwyddyn |
| **Amcan** | **SO8**. Sicrhau bod aneddiadau'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu holl anghenion eu cymunedau yn unol â'u rôl yn yr hierarchaeth aneddiadau |
| **Polisïau Allweddol** | **PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4, PS 17** |
| **Targed** | O'r dyddiad mabwysiadu, mae nifer yr unedau tai a ganiateir ar gyfer pob categori o anheddiad, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:<br>• Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53%<br>• Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%<br>• Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25% |
| **Trothwy** | O ddyddiad mabwysiadu, mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd olynol, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn:<br>• Y Ganolfan Isranbarthol a'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn is na'r % gofynnol;<br>• Mewn pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r % gofynnol |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatadau a cheisiadau newydd i ailystyried neu ymestyn dyddiad dod i ben caniatadau blaenorol. Mae'r rhain i gyd yn geisiadau lle byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Felly, nid yw'n ystyried ceisiadau am faterion a gadwyd yn ôl lle'r oedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi'i rhoi, ac nid yw ychwaith yn ystyried tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ailadeiladu tai, h.y. lle nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Nodir hefyd nad yw'r wybodaeth yma yn cynnwys caniatadau ôl-weithredol na chaniatadau sydd yn diwygio amodau caniatadau sydd yn bodoli (sydd wedyn yn ymestyn y caniatâd am 5 mlynedd pellach) ble nad yw caniatâd wedi ail-ystyried cynnwys y CDLl ar y Cyd yn benodol.<br><br>Mae'r trothwy sy'n gysylltiedig â'r dangosydd yn nodi y dylid ystyried nifer yr unedau tai a gymeradwywyd dros 2 flynedd yn olynol. |

### AMB 7

| Haen | Nifer yr Unedau a Gymeradwywyd | Canran yr holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad Targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol | 58 | 63% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 15 | 16% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a Chefn gwlad | 19 | 21% | 25% |
| **Cyfanswm** | **92** | - | - |

**AMB 8**

| Haen | Nifer yr Unedau a Gymeradwywyd | Canran yr holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad Targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol | 43 | 27% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 30 | 20% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a Chefn gwlad | 81 | 53% | 25% |
| **Cyfanswm** | **154** | - | - |



DRAFT

| **Dadansoddiad.** |
| --- |
| Mae'n amlwg nad yw'r dosbarthiad yn cyfateb yn effeithiol gyda'r lefel darged. Mae canran yr unedau a ganiatawyd yn y Canolfannau Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethu Trefol yn sylweddol is na'r lefel darged, ac mae canran yr unedau preswyl a ganiatawyd yn yr haen Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad yn fwy na dwbl y ffigur targed. Mae hyn yn ystumiad clir o ran lleoliad disgwyliedig y datblygiad.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag ystyried y wybodaeth am un flwyddyn yn unig, ac mae angen ystyried cyfnodau ehangach i gael darlun llawn o'r sefyllfa o ran y dangosydd hwn.<br><br>Dwy flynedd yn olynol (cyfnodau AMB 7 ac AMb 8 ar y cyd) - Wrth ystyried y lefel trothwy a'r sefyllfa am ddwy flynedd yn olynol, mae'r wybodaeth yn fwy ffafriol o'i chymharu â'r lefel darged nag ar gyfer cyfnod AMB 8 yn unig.<br><br>Bydd sicrhau bod datblygiadau wedi'u lleoli yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn ystyriaeth allweddol yn y CDLl newydd. |

| **Camau gweithredu.** |
| --- |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

DRAFT

# Economi ac Adfywio.

## Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau Cysylltiedig

## Wylfa Newydd

Cyflwynodd Horizon Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar 1 Mehefin 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23 Ebrill, 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel dri mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yn amlinellu ei gasgliadau a'i argymhellion ynghylch a ddylid rhoi caniatâd, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 23 Hydref 2019 neu cyn hynny (6 mis ar ôl i'r archwiliad ddod i ben).

Cafodd dyddiad y penderfyniad ei aildrefnu'n ddiweddarach i 31 Mawrth 2020 er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill heb eu datrys yr oedd angen eu hystyried ymhellach.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau oedd yn ymwneud â Covid-19, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol aildrefnu'r penderfyniad ar gyfer 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd bryd hynny. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn amlinellu'r penderfyniad diwygiedig yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107 (7) y Ddeddf Cynllunio (2008) cyn gynted â phosibl ar ôl i'r senedd ailddechrau.

Ar 22ain Medi, 28ain Medi a 18fed Rhagfyr 2020, anfonodd Horizon ohebiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohirio penderfyniad ynghylch Cais am Orchymyn Datblygu (DCO) Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm dros ofyn am ohirio oedd trafodaethau parhaus gyda thrydydd partïon a oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y Cais Gorchymyn Datblygu yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. Mae'r penderfyniad wedi golygu bod Hitachi wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad, ystyriwyd ei bod yn briodol tynnu'r Cais am Orchymyn Datblygu yn ôl.

Fel y cyfeirir ato ym mhennod cyd-destun yr AMB, mae prosiect niwclear newydd ar y gweill ar gyfer safle Wylfa Newydd. Yn ystod cyfnod monitro 2025-2026, gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu cynigion ar gyfer datblygiad niwclear newydd ar y safle. Ym mis Tachwedd 2025, cadarnhaodd Great British Energy - Nuclear (GBE-N) mai Wylfa oedd y lleoliad a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer defnyddio fflyd gyntaf y DU o Adweithyddion Modiwlar Bach (SMR) Rolls-Royce, gyda thri adweithydd cychwynnol yn cael eu cynnig. Disgwylir i'r prosiect ddod â manteision economaidd sylweddol i Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach drwy fuddsoddiad, creu swyddi, datblygu sgiliau a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi. Yn ystod y flwyddyn fonitro, dechreuodd y gwaith paratoi hefyd mewn perthynas â dyluniad safle-benodol, asesiad amgylcheddol, cyswllt rheoleiddiol a phrosesau cynllunio, gan ddangos mwy o sicrwydd ynghylch rôl strategol safle Wylfa yn y dyfodol o ran cefnogi diogelwch ynni cenedlaethol a'r newid i gynhyrchu ynni carbon isel.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D26**. Cam yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd |
| **Amcan** | **SO9**. Cefnogi a manteisio ar ddatblygu Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd-gymdeithasol ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hwyluso rhwydwaith addas o safleoedd datblygu sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd ar yr un pryd â sicrhau bod effeithiau niweidiol prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru'n briodol a, lle bo hynny'n briodol, bod manteision i'r dyfodol yn cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 8, PS 9, PS 10, PS 11, PS 12** |
| **Targed** | Cyflwyno cais am DCO Wylfa Newydd i'w gymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2017. Cais am DCO Wylfa Newydd wedi'i gymeradwyo erbyn mis Mai 2018. |
| **Trothwy** | Nid yw Horizon Nuclear Power yn llwyddo i gyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu erbyn mis Rhagfyr 2017. Nid yw Horizon Nuclear Power wedi llwyddo i gael cymeradwyaeth i'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu erbyn mis Rhagfyr 2018 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Ar 27 Ionawr 2021, cadarnhawyd bod Horizon Nuclear Power wedi tynnu'n ôl y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer datblygu'r orsaf bŵer. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd materion sy'n ymwneud â Wylfa Newydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D27**. Statws y cais i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i'w gymeradwyo'n derfynol |
| **Amcan** | **SO9**. Cefnogi a manteisio ar ddatblygu Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd-gymdeithasol ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hwyluso rhwydwaith addas o safleoedd datblygu sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd ar yr un pryd â sicrhau bod effeithiau niweidiol prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru'n briodol a, lle bo hynny'n briodol, bod manteision i'r dyfodol yn cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 8, PS 9, PS 10, PS 11, PS 12** |
| **Targed** | Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth gan DECC erbyn mis Rhagfyr 2019 |
| **Trothwy** | Nid yw Horizon Nuclear Power yn llwyddo i gael cymeradwyaeth gan DECC erbyn mis Rhagfyr 2019 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Ar 27 Ionawr 2021, cadarnhawyd bod Horizon Nuclear Power wedi tynnu'n ôl y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer datblygu'r orsaf bŵer. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd materion sy'n ymwneud â Wylfa Newydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D28**. Nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd. |
| **Amcan** | **SO9**. Cefnogi a manteisio ar ddatblygu Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd-gymdeithasol ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd |

| | |
|---|---|
| | cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hwyluso rhwydwaith addas o safleoedd datblygu sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd ar yr un pryd â sicrhau bod effeithiau niweidiol prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru'n briodol a, lle bo hynny'n briodol, bod manteision i'r dyfodol yn cael eu darparu |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 8, PS 9, PS 10, PS 11, PS 12** |
| **Targed** | Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd a gyflwynwyd gan Horizon Nuclear Power i Gyngor Sir Ynys Môn erbyn mis Rhagfyr 2017. |
| **Trothwy** | Nid yw Horizon Nuclear Power yn llwyddo i gyflwyno ceisiadau Cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer datblygiadau cysylltiedig erbyn 2017. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

**Dadansoddiad.**

Yn ystod y cyfnod monitro, aeth cryn dipyn o waith galluogi a pharatoi rhagddo i gefnogi'r datblygiad SMR arfaethedig yn Wylfa. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau safle, arolygon amgylcheddol ac ecolegol, asesiadau tir a gwaith technegol arall sydd ei angen i lywio ceisiadau cynllunio a rheoleiddio yn y dyfodol.

Mae'r ceisiadau mewn perthynas â Wylfa a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod AMB hwn yn cynnwys:

- FPL/2025/191 - Cais llawn i godi is-orsaf drydan ac adeiladu tŷ switsh ynghyd â seilwaith cysylltiedig yng Ngorsaf Bŵer Wylfa, Bae Cemaes. Caniatawyd 01/12/2025

Mae ceisiadau ers y cyfnod AMB hwn yn cynnwys:

| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd. |

| | |
|---|---|
| | **SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 14, TWR 1** |
| **Targed** | Mae'r lefelau cwblhau tai yn cael eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun |
| **Trothwy** | Ymateb i wyriad sydd naill ai'n sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gyfradd ofynnol flynyddol gyfartalog |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

**Dadansoddiad.**

Ar gyfer cynlluniau a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi Llawlyfr y Cynllun Datblygu (Mawrth 2020), nodir y bydd lefelau cwblhau tai yn cael eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Nodir y dylai cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dyraniadau safle, hap-safleoedd mawr a bach, gael eu monitro ar wahân hefyd.

Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Nodir y wybodaeth ganlynol fel unedau sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol o'u cymharu â Gofyniad Blynyddol Cyfartalog dangosol. Ni chafodd y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol a osodwyd yn y CDLlC ei rannu rhwng yr awdurdodau. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fonitro ar draws ardal y Cynllun ac felly dylid darllen yr adrannau hyn o'r adroddiad ochr yn ochr ag Adroddiad Monitro Blynyddol Gwynedd. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yma yn dangos sut y gellid rhannu Gofyniad Blynyddol Cyfartalog y Cynllun rhwng yr Awdurdodau. Nid yw'r dadgyfuno hwn wedi'i nodi yn y Cynllun.

Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol cyfartalog (Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig)

| **Unedau gwirioneddol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod AMB hwn** | **Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cynlluniau[1]** | **Cymhariaeth rhwng yr union nifer a gwblhawyd a'r gofyniad blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|
| **134** | **232** | **-98 (-42.2%)** |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Yn ystod y cyfnod AMB hwn, mae 134 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn. Y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog dangosol ar gyfer Ynys Môn yn unig yw 232, felly mae diffyg o 98 uned yn erbyn y gofyniad (-42.2%). Mae hyn yn cynyddu'r diffyg a ddatblygwyd mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>Mae cyfran lawer uwch o dai wedi cael eu darparu ar hap-safleoedd o'i gymharu â dyraniadau nag a ddisgwyliwyd yn nhaflwybr y cynllun.<br><br>O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei nodi ar gyfer ardal gyfan y cynllun yn ogystal ag ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unigol: |

| | Nifer yr unedau a gwblhawyd (Ardal y CDLlC) | Cymhariaeth â ffigur y taflwybr (Ardal y CDLlC) | Cymhariaeth â Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (Ardal y CDLlC) (429 annedd) | Nifer yr unedau a gwblhawyd (Ardal Cynllunio Ynys Môn) | Cymhariaeth â ffigur y taflwybr (Ardal Cynllunio Ynys Môn) | Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog dangosol (Ardal Cynllunio Ynys Môn) (232 annedd) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016/17 | 402 | 375<br>+27 (+6.9%) | -16.0% | 126 | 129<br>-3 (-2.32%) | -45.69% |
| 2017/18 | 462 | 505<br>-43 (-8.5%) | -3.5% | 254 | 220<br>+34<br>(+15.46%) | +9.48% |
| 2018/19 | 548 | 617<br>-69 (-11.2%) | +14.4% | 267 | 294<br>-27 (-9.18%) | +15.09% |
| 2019/20 | 453 | 631<br>-178 (-28.2%) | -5.4% | 208 | 314<br>-106 (-33.76%) | -10.34% |
| 2020/21 | 360 | 647<br>-287 (-44.4%) | -24.8% | 225 | 342<br>-117 (-34.21%) | -3% |
| 2021/22 | 347 | 623<br>-276 (-44.3%) | -27.6% | 178 | 318<br>-140 (-44%) | -23.28% |
| 2022/23 | 298 | 565<br>-267 (-47.3%) | -37.7% | 191 | 287<br>-96 (-33.45%) | -17.67% |
| 2023/ | 354 | 527 | -17.48% | 217 | 265 | -6.47% |

[1]Ni chafodd y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol a osodwyd yn y CDLlC ei rannu rhwng yr awdurdodau. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fonitro ar draws ardal y Cynllun ac felly dylid darllen yr adrannau hyn o'r adroddiad ochr yn ochr ag Adroddiad Monitro Blynyddol Gwynedd. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yma yn dangos sut y gellid rhannu Gofyniad Blynyddol Cyfartalog y Cynllun rhwng yr Awdurdodau. Nid yw'r dadgyfuno hwn wedi'i nodi yn y Cynllun.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | | -173 (-32.8%) | | | -48 (-<br>18.11%) | |
| 2024/<br>25 | Data Gwynedd<br>ddim ar gael | - | - | 249 | 279<br>-30 (-10.8%) | +7.33% |
| 2025/<br>26 | Data Gwynedd<br>ddim ar gael | - | - | 134 | 241<br>-107 (-<br>44.4%) | -42.22% |

**Dadansoddiad.**

Yn ystod cyfnod monitro 2025-2026, cwblhawyd 134 o unedau tai yn ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad amlwg yn y ddarpariaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2024-2025), lle cafodd 249 o unedau eu cwblhau a lle'r oedd y ddarpariaeth yn rhagori ar y gofyniad blynyddol.

Mae ffigur 2025-2026 yn gwrthdroi'r adferiad rhannol a welwyd yn 2023-2024 a 2024-25, lle'r oedd y ddarpariaeth wedi dechrau gwella ac yn agosáu at y gofyniad blynyddol dangosol (a rhagori arno am gyfnod byr). Yn hytrach, mae'r data diweddaraf yn dangos bod lefelau tangyflawni yn dychwelyd i lefelau sy'n fwy cyson â chyfnodau AMB cynharach, yn enwedig y rheini y mae cyfyngiadau'r farchnad ac effeithiau gwaddol pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt.

Yn ystod y cyfnod monitro yn ei gyfanrwydd, mae'r ddarpariaeth tai ar Ynys Môn wedi bod yn anghyson, gyda dim ond ychydig o flynyddoedd yn bodloni neu'n rhagori ar y gofyniad dangosol (yn benodol 2017/18, 2018/19 a 2024/25). Mae'r rhan fwyaf o flynyddoedd wedi gweld tangyflawni, gan gyfrannu at ddiffyg cronnol yn erbyn gofynion darpariaeth tai'r Cynllun.

Mae'r data hefyd yn parhau i ddangos bod cyfran sylweddol o'r gwaith cwblhau'n cael ei gyflawni ar hap-safleoedd yn hytrach na safleoedd wedi'u dyrannu, sy'n awgrymu y gallai rhai safleoedd a ddyrannwyd fod yn wynebu cyfyngiadau o ran cael eu cynnig ar y cyflymder disgwyliedig. Mae gan hyn oblygiadau i effeithiolrwydd strategaeth ofodol y Cynllun a'r taflwybr tai.

Gall y gostyngiad yn y gyfradd gwblhau yn 2025-2026 adlewyrchu amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- Amodau'r farchnad yn effeithio ar hyfywedd a gweithgarwch datblygwyr
- Oedi wrth gynnig safleoedd sydd wedi'u dyrannu
- Ffactorau economaidd ehangach (e.e. chwyddiant, costau adeiladu, cyfraddau llog) yn effeithio ar gyfraddau cyflawni

Yn gyffredinol, mae'r dangosydd yn dangos, er bod arwyddion diweddar o adferiad, bod y ddarpariaeth tai yn dal yn is na gofyniad blynyddol dangosol y Cynllun yn y flwyddyn fonitro ddiweddaraf ac mae'n parhau i ddangos ansefydlogrwydd. Er nad ystyrir bod gweithredu polisïau'n methu'n sylfaenol, mae'r materion hyn yn tynnu sylw at yr angen i adolygu tybiaethau darparu safleoedd, hyblygrwydd yn y cyflenwad tir ar gyfer tai, ac effeithiolrwydd dyraniadau fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Camau gweithredu**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D43 (B).** Cyfanswm cronnus y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus |
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 7, TAI 8, TAI 15, TAI 19** |
| **Targed** | Bydd nifer cronnus y tai a gwblheir yn cael ei fesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus a nodir yn y Cynllun |
| **Trothwy** | Ymateb i wyriad sydd naill ai'n sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Nodir, ar gyfer cynlluniau a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi Llawlyfr y Cynllun Datblygu, y bydd nifer cronnus y tai a gwblheir yn cael ei fesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus a nodir yn y Cynllun.<br><br>Nodir yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r unedau gwirioneddol a gwblhawyd yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig fel y nodir yn nhaflwybr tai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (a nodir ar sail Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig): |

**Cyfradd flynyddol y ddarpariaeth dai o'i chymharu â gwybodaeth yn y taflwybr tai (rhaniad dangosol ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig):**

| Blwyddyn | Ffigwr cwblhau cronnus a nodwyd yn y taflwybr | Union ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth â'r ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr | Cyfanswm cronnus a gwblhawyd | Cymhariaeth â'r ffigwr cwblhau cronnus yn y taflwybr | % cwblhau yn erbyn y ffigwr cwblhau cronnus. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 -12 | 119 | 119 | 0 | 119 | 0 | 0% |
| 2012 -13 | 342 (+223) | 223 | 0 | 342 | 0 | 0% |
| 2013 -14 | 503 (+161) | 161 | 0 | 503 | 0 | 0% |
| 2014 -15 | 642 (+139) | 139 | 0 | 642 | 0 | 0% |
| 2015 -16 | 782 (+140) | 140 | 0 | 782 | 0 | 0% |
| 2016 -17 | 912 (+130) | 126 | -4 | 908 | -4 | -0.4% |
| 2017 – 18 | 1132 (+220) | 254 | +34 | 1162 | -30 | -2.65% |
| 2018 – 19 | 1426 (+294) | 267 | -27 | 1429 | +3 | +0.21% |
| 2019 – 20 | 1740 (+314) | 208 | -106 | 1637 | -103 | -5.9% |
| 2020 – 21 | 2082 (+342) | 225 | -117 | 1862 | -220 | -10.57% |
| 2021 – 22 | 2400 (+318) | 178 | -140 | 2040 | -360 | -15% |
| 2022 – 23 | 2687 (+287) | 191 | -96 | 2231 | -456 | -16.97% |
| 2023 – 24 | 2952 (+265) | 217 | -48 | 2448 | -504 | -17.07% |
| 2024 – 25 | 3231 (+279) | 249 | -30 | 2697 | -534 | -16.53% |
| 2025 - 26 | 3472 (+241) | 134 | -107 | 2831 | -641 | -18.46% |

DRAFT

**Cyfradd y ddarpariaeth dai o'i chymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus (rhaniad dangosol ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig):**

| Blwyddyn | Gofyniad blynyddol cyfartalog cronnus (232 uned y flwyddyn) | Union ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth â'r gofyniad blynyddol cyfartalog (232 uned) | Cyfanswm cronnus a gwblhawyd | Cymhariaeth â chyfartaledd cronnus y gofyniad blynyddol am dai | % cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 -12 | 232 | 119 | -113 | 119 | -113 | -48.7% |
| 2012 -13 | 464 | 223 | -9 | 342 | -122 | -26.3% |
| 2013 -14 | 696 | 161 | -71 | 503 | -193 | -27.7% |
| 2014 -15 | 928 | 139 | -93 | 642 | -286 | -30.8% |
| 2015 -16 | 1160 | 140 | -92 | 782 | -378 | -32.6% |
| 2016 -17 | 1392 | 126 | -106 | 908 | -484 | -34.8% |
| 2017 – 18 | 1624 | 254 | +22 | 1162 | -462 | -28.5% |
| 2018 – 19 | 1856 | 267 | +35 | 1429 | -427 | 23.0% |
| 2019 – 20 | 2088 | 208 | -24 | 1637 | -451 | -21.6% |
| 2020 – 21 | 2320 | 225 | -7 | 1862 | -458 | -19.7% |
| 2021 – 22 | 2552 | 178 | -54 | 2040 | -512 | -20.1% |
| 2022 – 23 | 2784 | 191 | -41 | 2231 | -553 | -19.9% |
| 2023 – 24 | 3016 | 217 | -15 | 2448 | -568 | -18.8% |
| 2024 – 25 | 3248 | 249 | +17 | 2697 | -551 | -17.0% |
| 2025 - 26 | 3480 | 134 | -98 | 2831 | -649 | -18.7% |

| Dadansoddiad. |
|---|
| Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnodau AMB blaenorol, nodir bod llai o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r ffigurau a nodir yn y taflwybr. O'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog, mae'r ffigur cronnus gwirioneddol yn 649 uned yn is na'r ffigur disgwyliedig erbyn 2025/26. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth lwfans llithriad y Cynllun ond yn hytrach y ffigwr gwirioneddol ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.<br><br>Nodir bod 2,831 o unedau wedi eu cwblhau yn Ynys Môn rhwng y dyddiad sylfaen yn 2011 a 2025/26. Mae hyn yn is na'r taflwybr disgwyliedig ac yn is na ffigur y gofyniad blynyddol cyfartalog cronnus.<br><br>Ers mabwysiadu'r Cynllun, mae cyfanswm cronnus yr unedau a gwblhawyd ar Ynys Môn wedi tanberfformio o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog dangosol cronnus. Gan ddadansoddi cyfnodau AMB unigol, dim ond tair gwaith y mae'r gofyniad blynyddol dangosol cyfartalog o 232 uned wedi cael ei fodloni neu y rhagorwyd arno. Yn 2025/26, cwblhawyd 134 o unedau, sy'n 98 uned yn is na'r gofyniad blynyddol cyfartalog ac yn ostyngiad o'r 249 uned a gwblhawyd yn 2024/25.<br><br>Nodir y pwyntiau cysylltiedig canlynol isod: |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Os oes diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronnus yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol, mae Llawlyfr Cynllun Datblygu 3 yn nodi bod yn rhaid i'r ACLl ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gamau cwblhau/monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel dai ofynnol neu gyflawni'r strategaeth. Mae'r lefel trothwy ar gyfer y dangosydd hwn yn nodi bod yn rhaid darparu ymateb i wyriad sydd naill ai'n sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus. Mae sefyllfa 2025/26 yn dangos bod y diffyg wedi cynyddu o 551 uned yn 2024/25 i 649 uned yn 2025/26 yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus, sy'n cyfateb i berfformiad cwblhau o 18.7% yn is na'r gofyniad cronnus.<br><br>Yn erbyn y taflwybr tai, cwblhawyd 134 o unedau yn 2025/26 o'i gymharu â ffigur taflwybr blynyddol disgwyliedig o 241 o unedau, gan arwain at ddiffyg blynyddol o 107 o unedau. Sefyllfa'r taflwybr cronnus yw 2,831 o unedau wedi'u cwblhau o'i gymharu â 3,472 o unedau disgwyliedig, gan arwain at ddiffyg cronnus o 641 o unedau, neu 18.46% yn is na ffigur y taflwybr.<br><br>Mae trafodaeth bellach yn ymwneud â nifer yr unedau a gwblhawyd yn gronnus ac ar y dyraniadau tai i'w gweld yn yr adran ddadansoddi ar gyfer dangosyddion D44, D45 a D46. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| **Dangosydd** | **D44**. Nifer yr unedau tai newydd a adeiladwyd yn ardal y Cynllun |
|---|---|
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | Darparu 7,184 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B - Targedau Blynyddol Taflwybrau Tai ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun : 2016/ 17 = 376 2017/ 18 = 505 2018/ 19 = 617 2019/ 20 = 631 2020/ 21 = 647 2021/ 22 = 623 2022/ 23 = 565 2023/ 24 = 527 2024/ 25 = 528 2025/ 26 = 466 |
| **Trothwy** | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn is na'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| | |
|---|---|
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw targed y polisi wedi'i gyflawni yn ôl y disgwyl ar hyn o bryd ac mae'r trothwy wedi'i gyrraedd, gan fod nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd wedi gostwng yn is na'r gofyniad am ddwy flynedd yn olynol. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Gweler isod gymhariaeth o nifer yr unedau a adeiladwyd yn ardal y Cynllun yn erbyn y targed |

| Blwyddyn | Targed | Nifer Gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016 – 17 | 376 | 402 |
| 2017 – 18 | 505 | 462 |
| 2018 – 19 | 617 | 548 |
| 2019 – 20 | 631 | 453 |
| 2020 – 21 | 647 | 360 |
| 2021 – 22 | 623 | 347 |
| 2022 – 23 | 565 | 298 |
| 2023 - 24 | 527 (gyda Gwynedd) | 217 (Ynys Môn yn unig) |
| 2024 - 25 | 528 (gyda Gwynedd) | 249 (Ynys Môn yn unig) |
| 2025 - 26 | 466 (gyda Gwynedd) | 134 (Ynys Môn yn unig) |

Gan gofio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023, ac mai dim ond gwybodaeth o ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn sydd ar gael ar gyfer cyfnod AMB 8, mae'r tabl isod yn cyfleu gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn drwy ddefnyddio'r wybodaeth o'r taflwybr ar gyfer yr ardal hon yn unig.
Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig:

| Blwyddyn | Targed | Nifer Gwirioneddol | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| 2016 – 17 | 130 | 126 | -3.08% |
| 2017 – 18 | 220 | 254 | +15.46% |
| 2018 – 19 | 294 | 267 | -9.18% |
| 2019 – 20 | 314 | 208 | -33.76% |
| 2020 – 21 | 342 | 191 | -44.15% |
| 2021 – 22 | 318 | 178 | -44% |
| 2022 – 23 | 287 | 191 | -33.45% |
| 2023 - 24 | 265 | 217 | -18.11% |
| 2024 - 25 | 279 | 249 | -10.75% |
| 2025 - 26 | 241 | 134 | -44.4% |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| O ran y targed a'r lefel trothwy, mae'n amlwg bod nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun wedi disgyn islaw'r gofyniad ar gyfer Ynys Môn am ddwy flynedd yn olynol. Ar gyfer AMB 8, cwblhawyd 134 o unedau ar Ynys Môn o'i gymharu â tharged o 241 o unedau, sy'n cynrychioli diffyg o 107 o unedau, neu -44.4%.<br><br>Drwy greu cyfanswm o'r holl gyfnodau AMB, nodir bod 2,015 o unedau ar Ynys Môn wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 2,690 o unedau. Mae hyn yn cyfateb i 74.91% o'r lefel darged, gyda diffyg cronnol o 675 o unedau dros gyfnod o 10 mlynedd.<br><br>Mae'n amlwg bod nifer yr unedau a gwblhawyd ar Ynys Môn wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod y nifer a gwblhawyd wedi cynyddu rhwng 2022/23 a 2024/25, mae ffigur 2025/26 yn dangos gostyngiad sylweddol o 249 uned i 134 uned ac mae'n is na tharged Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn.<br><br>O ystyried y bwlch parhaus rhwng y lefel darged, yn flynyddol ac yn gronnus, a'r nifer gwirioneddol a gwblhawyd, credir bod yn rhaid ystyried yr agwedd hon wrth baratoi'r Cynllun newydd. Bydd y gwaith monitro, gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol, yn parhau i asesu a yw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn ac a yw'r dyraniadau tai a'r tybiaethau cyflawni yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y targed.<br><br>Nodir fodd bynnag mai rôl y Cynllun Datblygu Lleol yw darparu'r amodau ar gyfer cyflawni datblygiadau perthnasol a chyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. Ni all y Cynllun orfodi datblygiad y safleoedd hyn. Wrth baratoi'r Cynllun newydd, credir y dylid ailedrych ar y gyfradd twf tai, y gallu i gyflawni dyraniadau presennol ac yn y dyfodol, a'r tybiaethau sy'n sail i'r taflwybr. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D45**. Cyfanswm yr unedau tai a adeiladwyd ar safleoedd a neilltuwyd yng Ngwynedd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol |
| **Camau gweithredu** | Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn bellach yn cael ei gasglu a'i adrodd gan Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D46**. Cyfanswm yr unedau tai a adeiladwyd ar safleoedd a neilltuwyd ar Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth tai gyffredinol |
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | Mae safleoedd wedi cael eu dyrannu o fewn Polisïau TAI 1 - 5 ar gyfer 1,655 o unedau tai newydd ar Ynys Môn (gan gynnwys lwfans |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | llithriant o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 21% o'r ddarpariaeth tai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun: 2016/ 17 = 8, 2017/ 18 = 109, 2018/ 19 = 193, 2019/ 20 = 215, 2020/ 21 = 248, 2021/ 22 = 221, 2022/ 23 = 185, 2023/ 24 = 160, 2024/ 25 = 176, 2025/ 26 = 134 |
| **Trothwy** | Mae cyfanswm nifer yr unedau tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd dynodedig ar Ynys Môn yn is na'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae nifer yr unedau a gwblhawyd ar y safleoedd a neilltuwyd yn benodol ar gyfer tai ar Ynys Môn wedi disgyn islaw'r targedau a nodwyd ar gyfer cyfnod yr AMB hwn, ynghyd â phob blwyddyn arall a nodwyd yn y data targed: |

| Blwyddyn | Targed | Nifer Gwirioneddol | Gwahaniaeth | Canran y Gwahaniaeth o'r targed |
|---|---|---|---|---|
| 2016 – 17 | 8 | 4 | -4 | -50% |
| 2017 – 18 | 109 | 49 | -60 | -55% |
| 2018 – 19 | 193 | 99 | -94 | -49% |
| 2019 – 20 | 215 | 60 | -155 | -72% |
| 2020 – 21 | 248 | 63 | -185 | -75% |
| 2021 – 22 | 221 | 88 | -133 | -60% |
| 2022 – 23 | 185 | 22 | -163 | -88% |
| 2023 - 24 | 160 | 154 | -6 | -3.75% |
| 2024 - 25 | 176 | 79 | -97 | -55% |
| 2025 - 26 | 134 | 3 | -131 | -98% |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae 2.2% o'r holl unedau a gwblhawyd yn Ynys Môn yn 2025/26 wedi'u lleoli ar ddyraniadau tai, sef cyfanswm o 3 uned allan o'r cyfanswm o 134 uned a gwblhawyd eleni. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r polisi lleol wedi darparu'r canlyniadau disgwyliedig eleni. Mae'r tabl uchod |

| Dadansoddiad. |
| --- |
| yn dangos yn glir na chyrhaeddwyd y targed ar gyfer y safleoedd ers mabwysiadu'r cynllun. Er bod y ddarpariaeth wedi disgyn yn is na'r targedau blynyddol, dangosodd 2023/2024 aliniad agos â'r taflwybr, sy'n dangos y gall perfformiad amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall yn dibynnu ar gyflawni sy'n benodol i'r safle. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd â dangosyddion ehangach ar ddarparu a dosbarthu tai, sy'n dangos dibyniaeth barhaus ar hapsafleoedd a diffyg darpariaeth o ran safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar draws Ynys Môn.<br><br>Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun newydd, mae ailwerthusiad o'r safleoedd presennol sydd wedi'u dyrannu wedi cael ei baratoi i asesu hyfywedd y safleoedd drwy gysylltu â thirfeddianwyr ac asiantau ynghylch y cynlluniau presennol ar gyfer eu safleoedd. Bydd y tîm wedyn yn penderfynu a ddylid eu cynnwys neu eu dileu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn yn unig.<br><br>Gan fod nifer yr unedau a ddatblygwyd ar y dyraniadau tai yn gyson is na'r targedau ar gyfer y dangosydd hwn, mae'n briodol ail ystyried y safleoedd sy'n addas i'w dyrannu wrth baratoi'r cynllun newydd. Mae'r tîm polisi wedi paratoi a chwblhau galwad am ymgynghoriad cyhoeddus ar safleoedd / safleoedd ymgeisiol y llynedd, gan roi cyfle i dirfeddianwyr gyflwyno eu tir i'w gynnwys yn y cynllun newydd, er enghraifft, fel safle a neilltuwyd. Mae'r ymgynghoriad wedi bod yn llwyddiannus, a bydd swyddogion yn asesu safleoedd newydd i'w dyrannu ar gyfer tai gyda'r cynllun newydd. |

| Camau gweithredu. |
| --- |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
| --- | --- |
| **Dangosydd** | **D47**. Cyfanswm y tai fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd yn ardal y Cynllun |
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026<br><br>Targedau cwblhau ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun (2015 - 2026):<br><br>• Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018.<br>• Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020.<br>• Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022.<br>• Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024.<br>• Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026. |

DRAFT

| **Trothwy** | Mae cyfanswm y tai fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd yn ardal y Cynllun 10% neu fwy yn is na'r gofyniad cronnus a nodir yn y Targed Polisi |
|---|---|

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

**Dadansoddiad.**

Yn ystod y cyfnod 2015-23, nodir bod 863 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y cynllun. Fodd bynnag, dim ond i Ynys Môn y mae'r wybodaeth o gyfnod AMB 6 - AMB 8 yn berthnasol.

Mae cyfanswm o 68 uned ar Ynys Môn yn 2025-26 yn cynrychioli dychweliad i'r lefelau a welwyd yn 2020-21 ac mae'n cyd-fynd yn fras â'r blynyddoedd cryfach a gofnodwyd cyn y brig diweddar yn 2023/24. Er bod y ffigur yn is na'r cyfansymiau eithriadol o uchel a gofnodwyd yn 2023-24 a 2024/25, mae'n dal yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol hirdymor ar gyfer y cyfnod ac mae'n uwch na'r rhan fwyaf o flynyddoedd yn y set ddata.

| Blwyddyn | Cyfanswm Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn | Cyfanswm ardal y cynllun yn ei gyfanrwydd |
|---|---|---|
| 2015-16 | 38 | 82 uned |
| 2016-17 | 14 | 68 uned |
| 2017-18 | 30 | 61 uned |
| 2018-19 | 69 | 187 uned |
| 2019-20 | 22 | 124 uned |
| 2020-21 | 68 | 104 uned |
| 2021-22 | 41 | 115 uned |
| 2022-23 | 64 | 122 uned |
| 2023-24 | 132 | - |
| 2024-25 | 104 | - |
| 2025-26 | 68 | - |
| Cyfanswm | 650 | - |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae'n anodd gwneud asesiad uniongyrchol yn erbyn y targed a nodir yn y dangosydd hwn oherwydd nad yw gwybodaeth fonitro ar gyfer holl ardal y Cynllun ar gael ar gyfer blynyddoedd olaf cyfnod y Cynllun. O ganlyniad, ni ellir gwneud cymhariaeth lawn rhwng cyfraddau cwblhau a tharged y Cynllun cyfan.<br><br>Ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn, cwblhawyd 650 o unedau tai fforddiadwy rhwng 2015 - 16 a 2025 - 26. Yn ystod y flwyddyn fonitro ddiwethaf (2025/26), cwblhawyd 68 o unedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn ostyngiad o'r 104 uned a gwblhawyd yn 2024/25 a'r 132 uned a gwblhawyd yn 2023-24. Fodd bynnag, mae ffigur 2025 - 26 yn gyson â lefelau cyflawni a gyflawnwyd yn 2020-21 ac mae'n uwch na'r gyfradd gyflawni flynyddol gyfartalog o tua 59 uned yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Er bod y ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi gostwng o'i gymharu â'r ddwy flynedd fonitro flaenorol, mae cyfraddau cwblhau blynyddol wedi amrywio drwy gydol cyfnod y Cynllun. Gellir ystyried bod sawl ffactor yn dylanwadu ar gyflawni, gan gynnwys amseroedd dechrau a chwblhau datblygiadau, cyfraddau rhwystrau ymwthiol safleoedd, ystyriaethau hyfywedd ac amodau'r farchnad.<br><br>Mae gan nifer o unedau tai fforddiadwy ganiatâd cynllunio neu maent wrthi'n cael eu hadeiladu. Fodd bynnag, ni ellir rhagdybio eu cyfraniad at gyflenwi tai fforddiadwy yn y dyfodol nes eu bod wedi'u cwblhau. Felly, er bod cyflenwad o dai fforddiadwy a ganiatawyd o hyd yn y biblinell ddatblygu, nid yw'n bosibl dod i gasgliad ar hyn o bryd ynghylch a yw'r targed cyffredinol ar gyfer ardal y Cynllun wedi'i gyflawni.<br><br>Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ni ellir asesu targed y polisi yn llawn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu bod y polisïau perthnasol yn methu â sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy ar Ynys Môn. |
| |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| **Dangosydd** | **D48**. % yr unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal pris tai |
|---|---|
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | % cyfartalog y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â tharged dangosol fesul ardal pris tai |
| **Trothwy** | % gyfartalog y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn is na'r targed dangosol fesul ardal pris tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai fod Polisi TAI 15 yn cyfiawnhau hynny |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

DRAFT

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

**Dadansoddiad.**

Nodir bod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd ble mae'n berthnasol gofyn bod canran o unedau yn fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 uned neu fwy, ac eithrio safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw'n ystyried caniatâd ar safleoedd eithriedig lle mae'n rhaid i'r cynnig fod ar gyfer tai fforddiadwy 100%.

Mae'r data'n berthnasol ar gyfer caniatadau a cheisiadau newydd i ailystyried neu ymestyn dyddiad dod i ben caniatadau blaenorol. Mae'r rhain i gyd yn geisiadau lle mae'n rhaid ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Felly, nid yw'n ystyried ceisiadau am faterion a gadwyd yn ôl lle'r oedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi'i rhoi, ac nid yw ychwaith yn ystyried tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

Nodir bod y lefel trothwy yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol.

DRAFT

Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer pob Ardal Prisiau Tai ar Ynys Môn:

DRAFFT

| Ardal Prisiau Tai | Cyfnod | Canran y tai fforddiadwy a geisir (%) | Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (%) | A yw'n cyrraedd y lefel darged? |
|---|---|---|---|---|
| Rhosneigr | 2024/25 | # | # | # |
| Rhosneigr | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Biwmares | 2024/25 | # | # | # |
| Biwmares | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Gogledd Orllewin Gwledig | 2024/25 | 30% | 81% | Ydy |
| Gogledd Orllewin Gwledig | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Ardal y Pontydd | 2024/25 | # | # | # |
| Ardal y Pontydd | 2025/26 | 20% | 0% | Na |
| | | | | |
| Trearddur & Rhoscolyn | 2024/25 | # | # | # |
| Trearddur & Rhoscolyn | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| De Orllewin | 2024/25 | # | # | # |
| De Orllewin | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Gogledd Ddwyrain Wledig | 2024/25 | # | # | # |
| Gogledd Ddwyrain Wledig | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Y Canol Gwledig | 2024/25 | # | # | # |
| Y Canol Gwledig | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Gorllewin Gwledig | 2024/25 | 20% | 12.5% | Na |
| Gorllewin Gwledig | 2025/26 | # | # | # |
| | | | | |
| Llangefni | 2024/25 | # | # | # |
| Llangefni | 2025/26 | 10% | 10% | Ydy |
| | | | | |
| Caergybi | 2024/25 | 10% | 11.1% | Ydy |
| Caergybi | 2025/26 | 10% | 100% | Ydy |
| | | | | |
| Amlwch a'r Cefnwlad | 2024/25 | # | # | # |
| Amlwch a'r Cefnwlad | 2025/26 | # | # | # |

# Ni chyflwynwyd unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol.

DRAFT

**Dadansoddiad.**

O'r 12 ardal prisiau tai ar Ynys Môn, nodir na fu unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol mewn 9 o'r rhain yn ystod y cyfnod AMB hwn. Fodd bynnag, roedd 2 o'r 3 ardal lle'r oedd caniatadau cynllunio perthnasol yn ystod y cyfnod AMB hwn yn cyrraedd y targed dangosol (fel y nodwyd ym Mholisi TAI 15) o ran canran gyffredinol y tai fforddiadwy a ddarparwyd fel rhan o gydsyniadau cynllunio preswyl.

Er bod angen parhau i fonitro'r sefyllfa wrth baratoi'r Cynllun newydd, ni chredir felly bod angen gweithredu ar hyn o bryd.

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran Fforddiadwy 30%

| Cyfnod | Nifer y caniatadau | Nifer yr unedau a gymeradwywyd | Tai Fforddiadwy | Canran yr unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2025 / 26 | 1 | 2 | 0 | 0% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran Fforddiadwy 20%

| Cyfnod | Nifer y caniatadau | Nifer yr unedau a gymeradwywyd | Tai Fforddiadwy | Canran yr unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2025 / 26 | 0 | 0 | 0 | 0% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran Fforddiadwy 10%

| Cyfnod | Nifer y caniatadau | Nifer yr unedau a gymeradwywyd | Tai Fforddiadwy | Canran yr unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2025 / 26 | 3 | 43 | 14 | 33% |

**Dadansoddiad.**

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai ar y cyd (yn seiliedig ar yr ardaloedd lle mae canran y tai fforddiadwy a geisir yn gyson), nodir nad yw'r ddarpariaeth fforddiadwy ar gyfer ardaloedd prisiau tai y targed polisi h.y. gofynion ar gyfer 30%, wedi'i bodloni. Ni roddwyd caniatâd cymwys yn yr ardaloedd prisiau tai o 20% yn ystod y cyfnod monitro ac felly ni ellir gwneud asesiad ystyrlon. Rhagorwyd ar yr ardal darged o 10% o ran canran fforddiadwy, gyda chanran wirioneddol yn yr ardaloedd hyn o unedau fforddiadwy a ganiatawyd yn 33%. Dylid cofio bod enghreifftiau o gyfraniadau ariannol wedi cael eu sicrhau yn lle darpariaeth fforddiadwy a hefyd bod rhai unedau'n cael eu hystyried yn rhai 'fforddiadwy drwy ddylunio'.

Dim ond 3 uned Tai Marchnad Lleol a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag, cymeradwywyd nifer sylweddol o dai fforddiadwy hefyd. Caniatawyd cyfanswm o 143 o unedau fforddiadwy, gyda 100 ohonynt ar safleoedd eithriedig gwledig yn darparu 100% o dai fforddiadwy. O ystyried hyn, ystyrir bod lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn ystod cyfnod yr AMB yn dderbyniol.

Yn gyffredinol, er na chyrhaeddwyd y targed dangosol ym mhob ardal prisiau tai yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae'r nifer cyfyngedig o ganiatadau cymwys yn golygu y dylid dehongli'r canlyniadau'n ofalus. Mae parhau i ddarparu tai fforddiadwy drwy safleoedd eithriedig a chyfraniadau ariannol yn dangos bod Polisi TAI 15 yn parhau i weithredu yn ôl y bwriad.

DRAFT

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D49**. Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig |
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | Cynnydd yn nifer y safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/16 a 2016/ 17 |
| **Trothwy** | Dim cynnydd yn nifer y safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Cafodd 4 cais cynllunio ganiatâd ar safleoedd eithriedig gwledig yn ystod y cyfnod AMB hwn gyda chyfanswm o 91 o unedau fforddiadwy wedi'u caniatáu.<br><br>•FPL/2023/15 - Haulfryn Bodffordd (15 uned fforddiadwy wedi'u caniatáu)<br>•FPL/2025/11 - Maes Myrddin (Adran y tu allan i ffin ddatblygu, safle eithriedig, caniatawyd 19 uned fforddiadwy yn yr adran hon.)<br>•FPL/2024/76 - Tir i'r Gogledd o, Y Garnedd, Llanfairpwll (caniatawyd 27 uned fforddiadwy)<br>•FPL/2024/105 - Tir i'r Gogledd-ddwyrain o Gwêl y Llan, Llandegfan (caniatawyd 30 uned fforddiadwy.)<br><br>Bydd y targed yn cael ei gyrraedd pan fydd 0 safle eithriedig gwledig newydd yn cael eu |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| caniatáu mewn 2 gyfnod AMB yn olynol. Gan fod 4 cais wedi eu caniatáu yn ystod y flwyddyn fonitro hon ni chyrhaeddwyd targed y dangosydd hwn. Nid yw'r trothwy wedi'i gyrraedd, gan fod caniatadau cynllunio'n dal i gael eu rhoi ar gyfer safleoedd eithriedig gwledig |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D50.** Newidiadau mewn Gwerthoedd Gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodir ym Mholisi TAI 15. |
| **Amcan** | **SO15:** Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.<br><br>**SO16:** Darparu cymysgedd o unedau tai fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau a deiliadaethau i fodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 16, PS 18, TAI 1, TAI 5, TAI 8, TAI 15, TAI 17, TAI 19** |
| **Targed** | Darparu'r lefel uchaf o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â pholisi TAI 15. |
| **Trothwy** | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw un flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 8 (2025 – 2026) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae Polisi TAI 15 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi 21 o Ardaloedd Prisiau Tai, gyda'r targedau tai fforddiadwy yn seiliedig yn wreiddiol ar asesiad hyfywedd manwl a oedd yn ystyried gwerthoedd tir gweddilliol ar draws amrywiaeth o fathau o anheddau ac ardaloedd marchnad.<br><br>Nid oes asesiad gwerth tir gweddilliol wedi'i ddiweddaru wedi cael ei gynnal ar gyfer y cyfnod monitro hwn. O ganlyniad, nid yw'n bosibl pennu a yw gwerthoedd gweddilliol wedi newid |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
